Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru – Atodiad

## 2024-2025

**llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52112, ISBN digidol 978-1-80633-191-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| **Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel** | | |
| 1 | **Sefydlu ysgol feddygol newydd yn y Gogledd.** | Croesawodd Ysgol Feddygol Gogledd Cymru yr 80 o fyfyrwyr cyntaf i gael eu derbyn yn uniongyrchol ganddi ym Mhrifysgol Bangor ym mis Medi 2024, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Agorodd y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr Ysgol yn swyddogol ym mis Hydref 2024. Mae recriwtio pellach ar y gweill ar gyfer blwyddyn academaidd 25/26. Bydd nifer y myfyrwyr yn parhau i gynyddu nes iddynt gyrraedd capasiti llawn o 140 o fyfyrwyr y flwyddyn yn 29/30. |
| 2 | **Darparu triniaethau a ohiriwyd yn sgil y pandemig.** | Yn ystod 24/25, dwysáu wnaeth ein pwyslais ar leihau amseroedd aros hir. Mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo gyda'r GIG i gyflwyno newid cynaliadwy hirdymor ac i drawsnewid llwybrau clinigol i wella mynediad at ofal a gynlluniwyd a lleihau amrywiadau ledled Cymru. Bydd hyn yn cael ei gefnogi ymhellach drwy weithredu argymhellion y Grŵp Cynghori Gweinidogol Allanol ar Berfformiad a Chynhyrchiant y GIG – sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru – a sefydlwyd ym mis Hydref ac a gyflwynodd adroddiad ddiwedd mis Ebrill 2025.<br><br>Ym mis Hydref a mis Tachwedd 2024, darparwyd buddsoddiad ychwanegol o £50.4m uwchlaw'r buddsoddiad blynyddol o £170m a neilltuwyd eisoes i gefnogi cynlluniau'r byrddau iechyd i gyflawni gweithgarwch ychwanegol at weithgarwch craidd y GIG i gynyddu cyflymder y cyflawni yn chwarteri olaf 24/25. Erbyn mis Mawrth 2025, roedd arosiadau hir o fwy na 104 wythnos (mwy na dwy flynedd) ar eu pwynt isaf ers inni ddechrau'r adferiad. Roedd y ffigur hwn o 8,389 yn welliant o 88% o'i gymharu â mis Mawrth 2022. Er nad yw'r targedau absoliwt wedi'u cyflawni hyd yma, nid yw amseroedd aros o fwy na dwy flynedd bellach ond yn cyfrif am 1% o'r holl arosiadau am driniaethau a gynlluniwyd. Yn yr arbenigeddau hynny sydd mewn sefyllfa hynod heriol y mae arosiadau hir yn parhau i fod yn bennaf, fel y nodwyd gennym wrth sefydlu'r Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd. Mae tri bwrdd iechyd wedi llwyddo i ddileu pob arhosiad o dros ddwy flynedd a phob arhosiad o dros 52 wythnos ymhlith cleifion allanol ym mis Mawrth 2025. Erbyn yr adeg hon, ym myrddau iechyd prifysgol Betsi Cadwaladr a Chaerdydd a'r Fro roedd y mwyafrif o'r arosiadau hir. Er i dri bwrdd iechyd – Hywel Dda, Powys a Bae Abertawe – gyflawni'r targed adfer o gael gwared ar arosiadau o dros 52 wythnos ymhlith cleifion allanol erbyn diwedd mis Mawrth 2023, mae'r cynnydd o ran lleihau arosiadau cleifion allanol i lai na 52 wythnos wedi parhau i fod yn her mewn byrddau iechyd eraill. Mae'r flaenoriaeth o ran capasiti cleifion allanol yn parhau i fod ar frys clinigol, yn enwedig canser, gyda'r galw yn parhau i godi. Roedd perfformiad canser ym mis Mawrth 2025 yn 2.7% yn uwch nag ym mis Mawrth 2024, gyda bron i 1,600 yn rhagor o lwybrau yn cael eu hagor a 224 yn rhagor o lwybrau yn dechrau triniaeth ym mis Mawrth 2025 o'i gymharu â mis Mawrth 2024. Mae perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng wedi aros yn weddol sefydlog er bod lefelau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen o bobl ag anghenion gofal brys ac anghenion gofal sy'n peryglu bywyd yn defnyddio gwasanaethau'r GIG drwy wasanaethau ambiwlans 999 neu'n uniongyrchol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Yn 24/25, canolbwyntiodd ein rhaglenni chwe nod cenedlaethol a lleol ar gefnogi rhagor o bobl i osgoi'n ddiogel yr angen i gael eu derbyn i'r ysbyty drwy wasanaethau gofal argyfwng yr un diwrnod (SDEC) a gwella cynlluniau ar gyfer rhyddhau cleifion drwy leihau oedi hir mewn gwelyau ysbyty. Mae tua 8000 o bobl y mis bellach yn cael eu trin drwy wasanaethau SDEC, gyda thua 80% yn osgoi mewn modd diogel gorfod cael eu derbyn i wely yn yr ysbyty, gan ddychwelyd adref ar yr un diwrnod ag y byddant wedi mynd i'r ysbyty. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 3 | Darparu gwell mynediad at feddygon, nyrsys, deintyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. | Mae 97% o bractisau meddygon teulu yn cyflawni'r safonau mynediad, ac mae ganddynt brosesau ar waith i osgoi'r 'dagfa' am 8am. Rydym wedi darparu buddsoddiad ychwanegol o £23m yn 24/25 i sefydlogi gwasanaethau meddygon teulu. Mae dros 80% o bractisau deintyddol yn gweithio o dan drefniadau amrywio diwygio contractau eleni, gan alluogi mynediad i ychydig o dan 140,000 o gleifion newydd i dderbyn cwrs llawn o driniaeth. Cafodd 90,000 o apwyntiadau cleifion newydd pellach eu darparu hefyd. Lansiwyd y Porth Mynediad Deintyddol ym mis Chwefror 2025, gan ddarparu ffordd fwy teg i bobl yng Nghymru fynegi diddordeb mewn derbyn gofal gan y GIG a dileu'r angen i ffonio amryw o bractisau. Yn 24/25, fe wnaethom hefyd fuddsoddi dros £10m yn neintyddiaeth y GIG. Mae mwy o bobl nag erioed yn cael mynediad at wasanaethau clinigol yn 99% o'r fferyllfeydd yng Nghymru. Mae dros 10,000 o bobl wedi defnyddio'r gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer Heintiau y Llwybr Wrinol, a lansiwyd ym mis Mehefin 2024. Cafodd gwrthfiotigau eu darparu mewn 75% o'r achosion, gan arbed amser ac adnoddau hanfodol i feddygon teulu a darparu ffordd haws i'r cyhoedd o gael mynediad at brofion a thriniaeth. Mae buddsoddiad parhaus i gynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd mewn gofal sylfaenol a gofal cymunedol wedi arwain at greu 102 o swyddi ychwanegol ers 2023, gan helpu pobl i barhau i fyw bywydau actif ac i fod yn annibynnol. Mae buddsoddiad pellach o £2.8m a wnaed yn 24/25 yn galluogi'r ddarpariaeth nyrsys ardal i gynyddu capasiti ar ddiwrnodau dros y penwythnos i sicrhau bod gwasanaeth ar gael 7 diwrnod yr wythnos. |
| 4 | Diwygio gofal sylfaenol, gan ddod â gwasanaethau meddygon teulu, fferylliaeth, therapi, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, y gymuned a'r trydydd sector at ei gilydd. | Mae newidiadau i gontractau gofal sylfaenol yn gwella ansawdd a mynediad ac yn darparu rhagor o wasanaethau yn y gymuned. Rydym yn ymgynghori ar fodel newydd ar gyfer deintyddiaeth y GIG a fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2026. Mae hynny'n golygu y bydd pob un o'r pedwar contract gofal sylfaenol wedi'i ddiwygio i ddarparu gwasanaethau gwell i gleifion, a threfniadau gwell i weithwyr proffesiynol. Mae 79% o'r bobl sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin a 97% o'r bobl sy'n defnyddio gwasanaeth Fferyllwyr-bresgripsiynwyr Annibynnol mewn fferyllfeydd cymunedol wedi dweud, pe na bai'r gwasanaeth ar gael, y byddent fel arall wedi ymweld â'u meddyg teulu neu wasanaeth arall yn y GIG fel adran damweiniau ac achosion brys. Mae hyn yn dangos newid parhaus yn ymddygiad y cyhoedd o ran defnyddio fferyllfeydd cymunedol fel y lle cyntaf i droi ato ar gyfer mân afiechydon. Bydd ein buddsoddiad yn y pedwar maes yn cefnogi gwelliannau pellach o ran cydweithio ar draws gwasanaethau a gweithio clwstwr. |
| 5 | Blaenoriaethu buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl. | Rydym yn parhau i gynnal buddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl, gan glustnodi dros £800m yn 24/25, yn dilyn trosglwyddo cyllid gwella gwasanaethau iechyd meddwl a chyllid mewngymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) i mewn i ddyraniadau'r byrddau iechyd er mwyn sicrhau bod modd cynllunio gwasanaethau'n effeithiol ar gyfer y dyfodol. Mae hyn wedi cefnogi capasiti mewn meysydd allweddol fel CAMHS, gwasanaethau anhwylderau bwyta a gwasanaethau amenedigol. Rydym wedi parhau i roi cyllid ar gyfer gweithredu 111 pwyso 2, sy'n cefnogi mynediad at gymorth iechyd meddwl brys ledled Cymru. Erbyn mis Ebrill 2025, roedd y gwasanaeth hwn wedi derbyn dros 165,000 o alwadau ers iddo gael ei lansio ym mis Mehefin 2023. Rydym hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn gweithredu'r *Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* i gefnogi gweithlu amrywiol a chynaliadwy. Cyhoeddwyd ein *Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol* newydd ar gyfer 2025-2035 ym mis Ebrill 2025. Rydym wedi datblygu'r strategaeth hon yn seiliedig ar y ddealltwriaeth bod angen modd o osod blaenoriaethau a sicrhau bod yr adnoddau presennol yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl. Mae cynllun cyflawni ar gael i gyd-fynd â'r strategaeth, a bydd y cynllun hwnnw yn cael ei ddiweddaru yn ystod oes y strategaeth. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 6 | Blaenoriaethu ailgynllunio gwasanaethau i wella dulliau ataliol, mynd i'r afael â stigma a hyrwyddo dull dim drws anghywir o ddarparu cymorth iechyd meddwl. | Mae'r gwasanaeth 111 pwyso 2 ar gyfer anghenion iechyd meddwl brys a phwyntiau mynediad unigol at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) bellach wedi'u hymwreiddio ledled Cymru. Mae pob bwrdd iechyd hefyd wedi sefydlu prosiectau peilot i ddarparu dewisiadau amgen sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl ifanc sydd mewn argyfwng yn hytrach na gorfod mynd i adran damweiniau ac achosion brys. Bydd y dulliau hyn yn cael eu gwerthuso yn 25/26 i lywio'r ddarpariaeth yn y dyfodol. Mae'r offeryn hunanasesu NYTH (rhoi Nerth, Ymddiried, Tyfu'n ddiogel a Hybu) yn awr yn cael ei ddefnyddio. Dangosodd y diweddariad cynnydd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025 y cymerwyd cam sylweddol ymlaen o ran gweithredu NYTH. Datblygwyd offeryn hunanasesu a hyfforddiant cenedlaethol, gan olygu bod modd darparu cynnig safonol ledled Cymru, a chynnig cymorth penodol i ardal leol gan y rhanbarthau. Mae'r *Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol* yn nodi ymrwymiadau pellach i drawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl ac mae ein dull dim drws anghywir, gan ddarparu gwasanaeth di-dor a chysylltiedig, yn parhau i gael ei ymwreiddio o dan y strategaeth. |
| 7 | Cyflwyno gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed 'o fewn cyrraedd' mewn ysgolion ledled Cymru. | Mae dros £5.6m wedi'i ddarparu ar gyfer parhau â mewngymorth i ysgolion CAMHS i Gymru gyfan yn 24/25. Mae'r data diweddaraf gan 6 bwrdd iechyd yn dangos bod dros 100 o staff cyfwerth ag amser llawn yn gweithio mewn ysgolion. Mae gweithgarwch yn parhau i gael ei fonitro drwy Fframwaith Perfformiad GIG Cymru a thrwy ffrwd waith mewngymorth ysgolion y Bwrdd Trosolwg a Chyflawni Gweinidogol ar y Cyd. Mae gwaith bellach ar y gweill i drosglwyddo'r timau mewngymorth ym mhob bwrdd iechyd lleol o wasanaeth annibynnol i un sy'n perthyn i CAMHS arbenigol y byrddau iechyd lleol. Mae trafodaethau wedi dechrau â Gweithrediaeth y GIG a disgwylir iddynt ddod i ben yn ystod 2025. |
| 8 | Cyflwyno fframwaith Cymru gyfan i gyflwyno presgripsiynu cymdeithasol i helpu pobl sy'n teimlo'n ynysig. | Yn dilyn cyhoeddi'r *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol* ym mis Rhagfyr 2023, rydym wedi sefydlu Grŵp Cynghori ar Gydgynhyrchu i ymgysylltu mewn modd ystyrlon â phoblogaethau heb wasanaeth digonol. Hefyd, datblygwyd Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Ymarferwyr Presgripsiynu Cymdeithasol yng Nghymru, sy'n rhoi manylion yr wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau craidd i sicrhau cysondeb ar draws sectorau a gwasanaethau integredig. Trefnwyd bod arbenigwyr allanol yn cael eu secondio i ddatblygu rhaglen o gyrsiau ac adnoddau hyfforddi sy'n ategu'r Fframwaith Cymhwysedd. At hynny, penodwyd Hyrwyddwyr Presgripsiynu Cymdeithasol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i arwain ar ddatblygiadau yn eu rhanbarthau ac adrodd ar gynnydd presgripsiynu cymdeithasol. Fe wnaeth yr Hyrwyddwyr hyn gynorthwyo i ddatblygu llinell sylfaen wedi'i diweddaru o weithgarwch presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru, a olygai bod modd i swyddogion a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol feithrin trosolwg o'r hyn sy'n digwydd ledled Cymru. Cafodd pecyn cyfathrebu ei greu i hyrwyddo Diwrnod Cenedlaethol Presgripsiynu Cymdeithasol ar ym mis Mawrth. Yn olaf, comisiynwyd Ysgol Ymchwil Presgripsiynu Cymdeithasol Cymru i ddatblygu canllawiau ar y data sydd eu hangen ar gyfer gwerthuso a monitro. |
| 9 | Adolygu cynllunio llwybr cleifion a chyllid hosbisau. | Mae'r pwyslais cryfach ar ofal lliniarol a gofal diwedd oes wedi parhau drwy gydol 24/25. Ym mis Ebrill 2024, dosbarthwyd £4m ar ffurf cyllid untro i hosbisau a gomisiynir gan y byrddau iechyd ac sy'n darparu gwasanaethau 'craidd' y GIG, gan roi cymorth i gadw'r gweithlu ac fel ymateb i'r pwysau yn sgil chwyddiant. Roedd gweithgareddau allweddol eraill yn cynnwys datblygu manyleb gwasanaeth oedolion a phediatreg sy'n darparu canllawiau i wella'r safonau o ran gofal lliniarol a gofal diwedd oes ymhellach. Erbyn mis Mawrth 2025, roedd £5.5m pellach ar ffurf cyllid untro ychwanegol a £3m pellach ar ffurf cyllid cylchol wedi'u sicrhau ar gyfer hosbisau yng Nghymru, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 10 | Datblygu cynllun gweithredu HIV i Gymru. | Lansiwyd *Cynllun Gweithredu HIV i Gymru 2023-26* ym mis Mawrth 2023, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Ceir 30 o gamau gweithredu i gyflawni ein nodau o ddim trosglwyddiadau newydd erbyn 2030 a sicrhau bod pobl â HIV yn byw'n dda. Mae Cymru ar y trywydd iawn i ddod yn Genedl Llwybr Carlam gan fod clymblaid i Gymru gyfan wedi ei hen sefydlu ac yn cefnogi pob rhanbarth i gynnig darpariaeth ataliol, profion, triniaeth a gofal gwell, ac i leihau'r stigma a'r gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â HIV. Mae trefniadau cydweithredu Llwybr Carlam ar waith mewn pump o'r saith ardal bwrdd iechyd erbyn hyn. Mae nifer y profion a gynhelir yn parhau i gynyddu a'r ddarpariaeth yn cael ei chynnig drwy wasanaethau traddodiadol ochr yn ochr â'n gwasanaeth profi ar-lein cyfrinachol, rhad ac am ddim a thrwy sicrhau bod pecynnau profi ar gael yn ehangach yn y gymuned. Mae nifer y rhai sy'n cael proffylacsis cyn-gysylltiad (PrEP), meddyginiaeth sydd, o'i chymryd yn unol â'r presgripsiwn, yn lleihau'r risg o ddal HIV drwy ryw o 99%, hefyd yn parhau i gynyddu. Cynhelir adolygiadau carfan diagnosis hwyr i nodi cyfleoedd a gollwyd ac i weithredu gwelliannau. Mae codi ymwybyddiaeth, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol i staff y GIG a hyfforddiant ar gyfer staff gofal cymdeithasol, yn parhau i fynd i'r afael â'r stigma a'r gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â HIV. Mae'n dod yn haws i gael gafael ar gefnogaeth gan gymheiriaid. Mae gan Ymddiriedolaeth Terrence Higgins wasanaeth cefnogaeth gan gymheiriaid HIV ar-lein sy'n benodol i Gymru ac mae Rhaglenni Addysg i Gleifion Cymru (EPP Cymru) yn cynnig rhaglen hunanreoli ar-lein Byw gyda HIV, a gynlluniwyd ar gyfer unigolion sy'n byw gyda diagnosis o HIV neu'r rhai sy'n cefnogi rhywun â HIV. |
| 11 | Cyflwyno cod ymarfer statudol ar gyfer darparu gwasanaethau awtistiaeth. | Mae'r Cod wedi bod ar waith ers mis Medi 2021, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Mae'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol yn gweithio gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ymwreiddio'r Cod a hwyluso datblygu gwasanaethau. Rydym yn ymestyn y Cod i gynnwys niwrowahaniaeth ehangach. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau erbyn diwedd tymor y Senedd hon i fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Dechreuodd gwerthusiad annibynnol dau gam o'r Cod ym mis Ionawr 2023. Cyhoeddwyd cam un y gwerthusiad ym mis Tachwedd 2023, a bydd cam dau yn cael ei gyhoeddi erbyn yr hydref 2025. Sefydlwyd Rhaglen Gwella Cyflyrau Niwroddatblygiadol rhwng 2022 a 2025, gyda £12m o gyllid, i adeiladu capasiti a mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth. Rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Mawrth 2025, buddsoddwyd £3m i leihau amseroedd aros plant, gan gyflawni 2,166 o asesiadau. Rydym wedi sefydlu grŵp cynghori'r Gweinidog, grŵp cynghori clinigol, ffrydiau gwaith wedi'u targedu a grŵp rhanddeiliaid i ganolbwyntio ar welliannau pellach. |
| **Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed** | | |
| 12 | Talu'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal a, chan weithio gyda phartneriaid cymdeithasol drwy'r Fforwm Gwaith Teg, ystyried camau pellach tuag at sicrhau cydnabyddiaeth a gwobrwyo cydradd i weithwyr gofal. | Rydym yn ein pedwaredd flwyddyn o ddarparu cyllid i dalu costau'r Cyflog Byw Gwirioneddol, sydd, ers mis Ebrill 2025, yn £12.60 yr awr i weithwyr gofal cymdeithasol. Byddwn yn cyhoeddi gwerthusiad annibynnol yn ddiweddarach yr haf hwn. Mae Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol bellach wedi ei sefydlu'n llawn ac mae wedi cytuno ar y tri maes blaenoriaeth canlynol: Cytundebau Cydnabod, ochr yn ochr â mynediad at undebau llafur; Disgyblu a Chwynion; ac Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys trais yn y gweithle. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Bartneriaeth yn bwrw ati â phob un maes blaenoriaeth. Mae'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Tâl a Dilyniant i'w fabwysiadu'n wirfoddol ar draws y sector yn mynd rhagddo'n gyflym. Rydym wedi cynnal amrywiol weithdai ymchwil i lywio'r gwaith hwn yn ystod y misoedd diwethaf, ac rydym yn awr yn diffinio cwmpas y Fframwaith ac yn casglu data ar dâl ar draws y sector gofal cymdeithasol. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 13 | Cynyddu prentisiaethau ym maes gofal a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg. | Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a rhanddeiliaid ehangach i annog mwy i ymgymryd â phrentisiaethau mewn gofal ac i gefnogi'r sector drwy ein rhaglen brentisiaethau. Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw'r sector mwyaf yn ein rhaglen brentisiaethau. Mae gwaith uwchsgilio yn mynd rhagddo o ran y Gymraeg, i gynyddu'r niferoedd yn y gweithlu sy'n gallu defnyddio rhywfaint ar yr iaith wrth gyfathrebu. Mae gwaith ar y gweill gydag awdurdodau lleol i ddarparu 'cyrsiau croeso' i gefnogi'r gofyniad o fod â lefel cwrteisi o sgiliau Cymraeg fel y nodir yn *Mwy na geiriau: cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol*. Mae gwaith i barhau ag ef hefyd i annog pobl i ymgymryd â chyrsiau Cymraeg Camau (Mynediad) a'u cwblhau, sef cyrsiau pwrpasol ar gyfer gofal cymdeithasol yn benodol a ddatblygwyd gan gorff Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. |
| 14 | Sefydlu grŵp arbenigol i gynghori erbyn mis Ebrill 2022 ar y camau gweithredu ymarferol ar gyfer cyflenwi gwasanaeth gofal cenedlaethol sy'n rhad ac am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen. | Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar raglen y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol. Mae tri philer allweddol y rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth wedi'u cyflawni: lansiwyd y Swyddfa Genedlaethol ym mis Ebrill 2024; daeth *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer* i rym ym mis Medi 2024; a daeth y *Canllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)* wedi'u diweddaru i rym ym mis Mai 2025. Hefyd, comisiynwyd astudiaeth i ymchwilio i ddichonoldeb cael methodoleg ffioedd genedlaethol ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal, gan gynnwys y rheini sydd ag ystyriaethau Gofal Iechyd Parhaus a Gofal Nyrsio a Ariennir – sy'n cysylltu â'r Fframwaith Cenedlaethol. Bydd yr astudiaeth hon yn helpu i ffurfio camau rhaglen y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yn y dyfodol. |
| 15 | Deddfu i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach. | Cytunodd y Senedd ar ddiwygiadau i Reoliadau Rhan 9 ym mis Tachwedd 2024 a mis Mawrth 2025. Mae Rhan 9 yn rhagnodi'r trefniadau partneriaeth sydd i'w gwneud rhwng dau neu ragor o awdurdodau lleol neu rhwng un neu ragor o awdurdodau lleol ac un neu ragor o fyrddau iechyd lleol. Mae'r diwygiadau y cytunwyd arnynt wedi cryfhau'r trefniadau partneriaeth ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar draws meysydd allweddol gan gynnwys cynllunio, hunanasesu, cyllidebau cyfun, integreiddio a chydgomisiynu. Mae Codau Ymarfer a chanllawiau Rhan 9 wedi'u diweddaru gan nodi manylion pellach am y rheoliadau diwygiedig ac fe'u cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025. |
| 16 | Cefnogi datblygiadau tai arloesol i ddiwallu anghenion gofal. | Mae'r Gronfa Tai â Gofal wedi bod yn cyflawni cynlluniau arloesol ers tair blynedd bellach. Wrth i'r rhaglen ddechrau ar ei phedwaredd flwyddyn, mae gwelliant parhaus wedi bod o ran cyflawni, ac mae ein Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn datblygu, cynnal a chyflawni yn erbyn llif cryf o gynlluniau a nodwyd. Dyfarnwyd cyfanswm o £56m drwy'r rhaglen Tai â Gofal yn 24/25 ac mae'r gronfa wedi parhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau llety ar gyfer pum grŵp blaenoriaeth. Cafodd cyfanswm o 36 o gynlluniau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth eu cefnogi, ynghyd â 26 o gynlluniau pellach sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu, cyflyrau niwroamrywiol a chyflyrau niwroddatblygiadol. Ymhlith y buddsoddiadau eraill mae 9 cynllun ar gyfer pobl hŷn, 3 ar gyfer pobl ag anghenion iechyd a llesiant emosiynol ac 1 ar gyfer gofalwyr di-dâl. |
| 17 | Ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion gwaith. | Cafodd ein Cynnig Gofal Plant ei ehangu i rieni mewn addysg a hyfforddiant ym mis Medi 2022, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Dyma'r sefyllfa o hyd, ac rydym yn parhau i ddefnyddio ein cynllun cyfathrebu strategol a phresenoldeb Teulu Cymru ar y we i wella'r ymwybyddiaeth o'r Cynnig a chynyddu'r nifer sy'n manteisio arno. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 18 | **Mynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg.** | Roedd yr ystadegau swyddogol diweddaraf ar gyfer Dechrau'n Deg yn dangos bod 6,885 yn rhagor o leoedd gofal plant Dechrau'n Deg i blant 2 oed wedi'u cynnig yn 23-24, fel rhan o Gam 2 yr ehangu. Bydd ystadegau swyddogol ar gyfer 24/25 yn cael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd. Yn 23/24, mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yr oedd 1,007 o'r holl leoedd Cam 2 oedd wedi'u cymryd. Yn 23/24 a 24/25, buddsoddwyd £46m i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg a fydd yn dod â Chymru gam yn nes at y ddarpariaeth gyffredinol o ofal plant i bob plentyn dwy oed. Bydd nifer y plant a fydd wedi'u cyrraedd erbyn cam nesaf ehangu Dechrau'n Deg yn dibynnu ar gyfraddau'r rhai a fydd yn manteisio ar y ddarpariaeth. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl cyrraedd mwy na 4,000 yn rhagor o blant yn 25/26. |
| 19 | **Parhau i gefnogi ein rhaglenni Dechrau'n Deg blaenllaw.** | Mae'r cymorth ar gyfer Dechrau'n Deg, ein rhaglen flaenllaw ar gyfer y blynyddoedd cynnar, wedi cynyddu o fwy nag 20% ers dechrau tymor y Senedd, gan godi i £89.2m yn 24/25. Mae'r data cyflawni diweddaraf ar gyfer 23/24 yn dangos bod 41,328 o blant wedi elwa ar wasanaethau Dechrau'n Deg, sy'n cynrychioli tua 28% o blant dan bedair oed yng Nghymru. Rydym hefyd yn parhau i fuddsoddi yn Dechrau'n Deg, a'i ehangu, drwy ehangu'n raddol y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar sy'n cael ei chyflwyno drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg. |
| 20 | **Atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal.** | Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth rhieni ledled Cymru. Gall rhieni ledled Cymru sydd angen y gefnogaeth hon gael mynediad ati yn awr drwy wasanaethau eiriolaeth rhieni TGP (Tros Gynnal Plant), NYAS (Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol) a PAN (Rhwydwaith Eiriolaeth Rhieni) gan ddibynnu ar eu lleoliad. Cyhoeddodd *Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant* CASCADE, Prifysgol Caerdydd, ymchwil ym mis Ionawr 2025 yn edrych ar fanteision eiriolaeth rhieni broffesiynol (fel yr hyn a gynigir gan NYAS a TGP) ac eiriolaeth rhieni dan arweiniad cymheiriaid fel PAN. Roedd y casgliadau'n gadarnhaol am y gwasanaethau, a nodwyd bod rhieni'n teimlo eu bod wedi'u grymuso i chwarae rôl fwy ystyrlon mewn penderfyniadau a wneir am eu teulu gyda chefnogaeth eiriolaeth rhieni. Roedd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol yn brif siaradwr mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan NYAS a glywodd dystiolaeth gan rieni ynghylch effaith gadarnhaol eiriolaeth rhieni. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod darpariaeth eiriolaeth rhieni gyson i'w chael ledled Cymru. |
| 21 | **Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal.** | Rydym yn parhau i gefnogi teuluoedd. Mae ein ffigurau diweddar yn dangos bod 1,799 o deuluoedd a 4,794 o blant a phobl ifanc wedi cael eu cefnogi gan wasanaethau ar ffiniau gofal. Ochr yn ochr â hyn, sefydlwyd y Fforwm Arferion Da – fforwm ag iddo dros 150 o ymarferwyr o bob rhan o'r sector yn aelodau. Mae'r Fforwm yn cyfrannu at ddatblygu pecyn cymorth arferion da a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Mae'r grŵp hwn wedi helpu i ddiffinio anghenion cymhleth fel: anghenion emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl difrifol, a allai fodoli ochr yn ochr ag anghenion corfforol cymhleth iawn. Yn 24/25, ariannodd y Gronfa Integreiddio Ranbarthol a'i model gofal 'Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal', amrediad o brosiectau gan gynnwys Fy Nhîm Cymorth sy'n darparu cymorth iechyd meddwl arbenigol i blant a phobl ifanc yng Ngwent, a'r rhaglen Gwasanaeth Cymorth Parhad Amlasiantaeth yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 22 | Ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal. | Mae'r Grŵp Cyflawni ar gyfer Trawsnewid wedi parhau i gyfarfod yn ystod 24/25. Mae'r Grŵp wedi gwneud cynnydd da, gan ddatblygu Fframwaith Cymorth Cynnar ac Atal a nodi data a metrigau er mwyn ei gwneud yn bosibl i ddangosfwrdd ar gyfer gwasanaethau plant gael ei gynhyrchu. Cyfarfu'r Bwrdd Trosolwg Gweinidogol ddiwethaf ym mis Ionawr 2025. Mae'r Bwrdd yn awr yn cael ei gadeirio ar y cyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol. Mae gwaith wedi parhau i gefnogi'r ymdrech i wireddu'r weledigaeth yn Natganiad Diwygio Radical yr Uwchgynhadledd Profiad o Ofal. Cafodd y cynnydd a wnaed ei rannu â phobl ifanc yn yr Uwchgynhadledd ym mis Mai 2025. Yn ystod 24/25, mae gwaith wedi parhau i bennu manylion terfynol y Fframwaith Cenedlaethol ar Ymarfer Amlasiantaethol ar gyfer Gwasanaethau Plant a gyhoeddwyd ym mis Ebrill. Nod y Fframwaith yw gwella cysondeb yr ymarfer ledled Cymru a chefnogi ffordd o weithio sy'n seiliedig ar gryfderau ar draws asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i blant. |
| 23 | Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. | I gyflawni'r ymrwymiad hwn, cafodd Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ei gyflwyno ym mis Mai 2024, a daeth yn gyfraith ar 24 Mawrth 2025. Rydym yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid drwy Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw a'i ffrydiau gwaith ategol i sicrhau bod ganddynt ymwybyddiaeth lawn o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth ac y gallant ddechrau mynd ati ar y cyd i ystyried ei rôl hwythau i'w gweithredu. Yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol, mae deunyddiau cyfathrebu wedi'u targedu am y Ddeddf wedi'u datblygu ar gyfer plant a phobl ifanc, a chynhaliwyd gweithdai wyneb yn wyneb gyda darparwyr i roi'r diweddaraf iddynt am yr amserlen ar gyfer gweithredu. Rydym wedi datblygu *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol* sy'n cael ei oruchwylio gan Fwrdd y Rhaglen ac wedi gweithio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i ddatblygu *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Awdurdodau Lleol*. Bydd y ddau gynllun yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i fonitro'r cynnydd. |
| 24 | Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. | Os na fydd anghenion cymhleth plant a phobl ifanc yn cael sylw, mae'n bosibl mai pendraw hyn fydd cartref diogel neu leoliad arbenigol sy'n bell o'r bobl y maent yn eu hadnabod ac sy'n aml y tu allan i Gymru. Mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol er mwyn torri'r cylch hwn ac mae ein dull therapiwtig sydd wedi cael ei lywio gan drawma yn sicrhau canlyniadau gwell i'r plentyn. Er mwyn mesur yr ymyriadau sy'n digwydd a'u heffaith, sefydlwyd fframwaith monitro a oedd yn caniatáu inni goladu data ar draws pob rhanbarth fesul chwarter. Yn 24/25, cafodd 186 o blant a phobl ifanc eu lletya mewn cartrefi therapiwtig yn eu hawdurdodau lleol eu hunain – roedd 35 ohonynt wedi dychwelyd i'w hardal awdurdod lleol ar ôl bod mewn lleoliadau y tu allan i'r sir neu'r tu allan i Gymru. Mae 462 yn rhagor o blant a phobl ifanc wedi derbyn ymyriadau therapiwtig, gan gynnwys seibiant. Yn ystod yr un cyfnod, roedd 76 o blant a phobl ifanc wedi gallu aros gyda'u teuluoedd neu ddychwelyd yn ddiogel atynt. Yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, mae cynnydd o 25 o gartrefi newydd gyda 78 o welyau ychwanegol wedi bod yn narpariaeth gwasanaethau preswyl mewnol. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 25 | Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel ‘rhiant corfforaethol’. | Parhaodd y gwaith drwy 24/25 o annog sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a’r sector preifat i lofnodi’r *Siarter Rhianta Corfforaethol*. Erbyn mis Ebrill 2025, roedd 65 o sefydliadau wedi llofnodi gan gytuno i ddod yn rhieni corfforaethol, gan gynnwys pob un o’r 22 o awdurdodau lleol a’r 7 bwrdd iechyd lleol. Mae’r Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol wedi parhau i gyfarfod drwy 24/25. Gan weithio gyda’r Grŵp, datblygwyd pecyn o wybodaeth ar gyfer rhieni corfforaethol newydd. Mae’r holl sefydliadau sy’n cytuno i fod yn rhiant corfforaethol wedi derbyn llythyr croeso gan y Prif Weinidog, bathodyn Rhiant Corfforaethol Cymru a thempled adduned i’w gwblhau, gan ddarparu gwybodaeth am eu cynnig o gefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Datblygwyd hefyd Becyn Cymorth Rhianta Corfforaethol ar y cyd â’r Grŵp a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal: *Beth mae’n ei olygu i fod yn Rhiant Corfforaethol?* Mae’r pecyn cymorth, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024, yn darparu enghreifftiau o rianta corfforaethol ar waith mewn gwahanol wasanaethau gan gynnwys iechyd, addysg a thai. Cynhaliwyd y Digwyddiad Arferion Gorau Rhianta Corfforaethol cenedlaethol cyntaf ym mis Chwefror 2025 gyda dros 100 o gynrychiolwyr yn bresennol. Roedd pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn gallu rhannu eu disgwyliadau o rieni corfforaethol yn uniongyrchol. |

## Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau’r dyfodol

| | | |
|---|---|---|
| 26 | Cyflwyno’r Warant i Bobl Ifanc, gan roi’r cynnig o waith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb o dan 25 oed. | Cyhoeddwyd adroddiad ar *Brif Bwyntiau’r Warant i Bobl Ifanc Mawrth 2024 i Fawrth 2025* ym mis Mawrth 2025, gan ddangos bod cynnydd cadarn yn cael ei wneud a bod bron i 57,000 o bobl ifanc wedi bod yn ymgymryd â rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau ers ei lansio. Mae mwy na 8,500 o bobl ifanc wedi symud ymlaen i gyflogaeth, mwy na 800 wedi dechrau eu busnes eu hunain a mwy na 29,000 wedi dechrau prentisiaethau, yn ôl y ffigurau dros dro. Yn rowndiau terfynol cenedlaethol WorldSkills y DU ym mis Tachwedd 2024, daeth Cymru i’r amlwg fel rhanbarth nodedig yn y gystadleuaeth drwy ennill cyfanswm o 70 o fedalau a braenaru’r tir i Gymru gynnal rowndiau terfynol y DU am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2025. Yn rownd derfynol WorldSkills yn Lyon ym mis Medi 2024, fe wnaeth 6 myfyriwr o Gymru gystadlu fel rhan o Dîm y DU, gydag un cystadleuydd o Gymru, Ruben Duggan, yn ennill medal arian. |
| 27 | Creu 125,000 o brentisiaethau pob oed. | Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gyflawni’r rhaglen brentisiaethau ac am y gyllideb i Medr ym mis Awst 2024. Sicrhau bod mwy o gydlyniant ar draws y system sgiliau yng Nghymru, gan gynnwys Addysg Bellach ac Addysg Uwch, yw’r diben drwy greu Medr. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio’n agos gyda Medr i gynyddu i’r eithaf y cyfleoedd sydd ar gael i bobl Cymru. Rydym wedi datblygu fframwaith strategol i fynd i’r afael â’r heriau sy’n wynebu unigolion a chyflogwyr o ganlyniad i’r pandemig a newidiadau economaidd. Mae’r fframwaith yn cyd-fynd â’n cenhadaeth economaidd a ddiweddarwyd a’n *Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau*. Rydym yn parhau â’n gwaith i greu 100,000 o gyfleoedd prentisiaeth yn nhymor y Senedd hon. Mae’r ystadegau diweddaraf yn dangos bod bron i 74,000 o brentisiaethau wedi’u dechrau ers Ch4 2020/21. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 28 | Rhoi sail ddeddfwriaethol i'r bartneriaeth gymdeithasol drwy'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). | Daeth Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn gyfraith ym mis Mai 2023, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Sefydlwyd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol ym mis Chwefror 2024 a daeth y dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol i rym ym mis Ebrill 2024. |
| 29 | Defnyddio'r rhwydwaith newydd o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i helpu i gau'r bwlch rhwng pobl anabl a gweddill y boblogaeth sy'n gweithio. | Rydym yn cyflogi pum Hyrwyddwr Cyflogaeth Pobl Anabl yn aelodau parhaol o'n staff. Maent yn ymgysylltu â chyflogwyr i hyrwyddo recriwtio a chadw pobl anabl a gwella profiadau pobl anabl o waith a'u rhagolygon gyrfa. Mae pob un o'r Hyrwyddwyr yn dod â phrofiadau bywyd a dealltwriaeth drylwyr ac ymarferol o'r model cymdeithasol o anabledd, ac mae eu gwaith yn ymwneud â'r sefyllfa o fewn a thu allan i Lywodraeth Cymru. Yn fewnol, mae'r Hyrwyddwyr yn cyfrannu eu profiadau bywyd a'r wybodaeth y maent wedi'i dysgu i ddylanwadu ar ddatblygu polisi a'n dull gweithredu fel cyflogwr. Yn allanol, mae'r Hyrwyddwyr yn ymgysylltu â chyflogwyr, sefydliadau sy'n cynrychioli cyflogwyr ac undebau llafur. |
| 30 | Cryfhau ein Contract Economaidd. | Mae'r broses o gyflwyno Contract Economaidd cryfach, a gafodd ei rhoi ar waith ddechrau 2022, wedi parhau i feysydd busnes newydd gan gynnwys mabwysiadu'r egwyddorion a'r pileri yn ehangach. Mae gwerthusiad allanol o effaith, canlyniadau a dylanwad y Contract Economaidd ar y gweill. Yn ogystal â hynny, mae is-grŵp o'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wedi'i gynnull ynghyd i adolygu ein dull o ymdrin â gwaith teg yn ein cyllid grant i fusnesau a fydd yn llywio datblygiadau yn y dyfodol. Ers mis Ionawr 2022, mae dros 600 o Gontractau Economaidd wedi cael eu rhoi i fusnesau ledled Cymru, gyda thua 150 ohonynt wedi'u rhoi yn y cyfnod o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025. |
| 31 | Cefnogi cynigion TUC Cymru i aelodau undeb ddod yn Gynrychiolwyr Gwyrdd yn y gweithle. | Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gwblhau. Mae gwaith TUC Cymru i gynnal a chefnogi rhwydwaith o gynrychiolwyr gweithle gwyrdd a darparu hyfforddiant i gynrychiolwyr gwyrdd yn un o'r gweithgareddau sy'n cael cymorth drwy ein cyllid i TUC Cymru. |
| 32 | Cefnogi'r gwaith o greu Banc Cymunedol i Gymru. | I lawer o unigolion, busnesau a chymunedau, mae gallu cael mynediad corfforol at wasanaethau bancio yn parhau i fod yn hanfodol ac mae colli canghennau banciau ar y stryd fawr yn bryder sylweddol. Er nad oes ateb unigol i'r heriau sy'n deillio o gau canghennau banciau, credwn y byddai Cymru yn cael budd o fanc cymunedol – un sy'n seiliedig ar fodel cydfuddiannol, sy'n eiddo i'r aelodau, ac sy'n cael ei redeg er eu budd, gydag ymrwymiad i safleoedd ledled Cymru. Gan nad oes gennym y pwerau i weithredu banc cymunedol, rydym wedi ceisio cyflawni'r ymrwymiad hwn drwy fynd ati'n rhagweithiol i weithio gyda sefydliadau yn y sector sy'n barod i ymchwilio i'w cynlluniau eu hunain a datblygu cynlluniau o'r fath ar gyfer menter fel hon. Rydym wedi darparu cymorth grant i Cambria Cydfuddiannol Cyf gan ei alluogi i weithio gyda nifer o sefydliadau wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym hefyd wedi cynnull ynghyd ddau ddigwyddiad Bancio yng Nghymunedau Cymru, gan greu fforwm unigryw i randdeiliaid greu cysylltiadau ac ymchwilio i'r cyfleoedd i gydweithredu sydd eu hangen i lunio ac addasu'r cymorth y mae ar unigolion, busnesau a chymunedau ei angen. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 33 | Datblygu Her Morlyn Llanw a chefnogi syniadau a all wneud Cymru'n ganolfan fyd-eang i dechnolegau llanw sy'n dod i'r amlwg. | Mae'r tri phrosiect ymchwil Her Môr-lynnoedd Llanw hanner ffordd drwy eu hamserlenni dwy flynedd. Mae'r tri wedi adrodd am gynnydd da a chafodd eu canfyddiadau dros dro eu cyflwyno yng nghynhadledd Ynni Môr Cymru ym mis Mai 2025. Ym mis Hydref 2024, daethom yn bartneriaid ecwiti ym Menter Môn Morlais Cyfyngedig (cwmni daliannol Morlais), gan fuddsoddi £8m. Ym mis Mawrth 2024, gwnaethom ail fuddsoddiad ecwiti (£2m) yn Inyanga Marine Energy Group (IMEG) i helpu prosiect arddangos gwerth £3.7m ym Morlais i brofi dulliau arloesol o ddefnyddio tyrbinau ffrwd lanw o dan amodau'r byd go iawn – gyda tharged wedi'i osod ar gyfer eu defnyddio yn y môr yn yr hydref. |
| 34 | Galluogi canol ein trefi i fod yn fwy ystwyth yn economaidd drwy helpu busnesau i weithio'n gydweithredol, cynyddu eu darpariaeth ddigidol a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol, gan gynnwys gwasanaethau cyflenwi lleol. | Mae'r rhaglen Trefi Smart wedi cefnogi awdurdodau lleol, grwpiau o fusnesau a phartneriaid eraill yng nghanol trefi i fabwysiadu datrysiadau digidol i'w helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus sy'n cael eu hysgogi gan ddata i helpu canol trefi a dinasoedd i ffynnu. Ers mis Ebrill 2023, rydym wedi cefnogi 234 o fusnesau ac wedi sicrhau 56 o astudiaethau achos fel y gellir rhannu arferion gorau a datrysiadau y gellir eu cyflawni. At hynny, mae 171 o hyrwyddwyr Trefi Smart wedi'u nodi a all helpu i sicrhau cynaliadwyedd y gweithgareddau hyn. Mae 16 o drefi yn bwrw ati â'r gwaith i wella modelau busnes a chymunedol cydweithredol, gan ddefnyddio'r cyllid refeniw gwerth £100k a ddyrannwyd yn 24/25. Mae hyn yn ychwanegol at y gwaith ymgysylltu helaeth sy'n digwydd fel rhan o Gynlluniau Creu Lleoedd mewn trefi a chanol dinasoedd ledled Cymru. Mae Busnes Cymru yn parhau i gefnogi busnesau yng Nghymru i gael mynediad at gadwyni cyflenwi cyhoeddus a phreifat drwy gyfleoedd ar GwerthwchiGymru ac i ddatblygu eu polisïau a'u harferion drwy roi cyngor tendro. Mae gwybodaeth, cyrsiau a chanllawiau sy'n bwrpasol ar gyfer cymorth busnes digidol a digwyddiadur i ddod o hyd i weithdai yn parhau i fod ar gael ar wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol Busnes Cymru. Mae Busnes Cymru yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer masnachu ar y we; defnyddio technoleg i wella gweithrediadau ariannol a busnes; helpu i gyrraedd mwy o gwsmeriaid; a symleiddio prosesau gwaith. |
| 35 | Ceisio targed o 30% ar gyfer gweithio o bell. | Rydym wedi cwblhau'r ymrwymiad hwn yn llwyddiannus drwy sefydlu rhwydwaith o hybiau gweithio o bell, cyhoeddi canllawiau ac astudiaethau achos ar weithio o bell, a monitro'r targed o 30%. Mae'r data diweddaraf yn dangos ein bod yn rhagori ar y targed hwn, gyda thua thraean o'r gweithlu yn gweithio o bell yn rheolaidd yn 2022-23. |
| **Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl** | | |
| 36 | Lansio Cynllun 10 mlynedd newydd Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar gyfer economi ddi-garbon. | Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddwyd ein *Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru*, gan felly gyflawni'r ymrwymiad hwn. Mae'r Strategaeth yn gosod fframwaith ar gyfer buddsoddiadau seilwaith trawslywodraethol sy'n cynnwys ymrwymiad cyffredinol i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Trwy ddefnyddio'r fframwaith a amlinellir yn y Strategaeth, gallwn wella'r gwerth sy'n deillio o'n buddsoddiadau mewn seilwaith er mwyn cyflawni amcanion trawsbynciol a sicrhau nifer o fanteision. Wrth wneud hynny, yn yr hirdymor, gallwn ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau a helpu busnesau i ffynnu. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 37 | Darparu'r Strategaeth Ddigidol i Gymru ac uwchraddio ein seilwaith digidol a chyfathrebu. | Mae'r gwaith o gyflawni'r *Strategaeth Ddigidol i Gymru* ar draws pob un o'r 6 Cenhadaeth wedi parhau. I gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus modern sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, sefydlwyd Comisiwn Deallusrwydd Artiffisial (AI) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gynghori ar y defnydd diogel o AI. Yn ogystal, cyhoeddodd Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ganllawiau ar ddefnydd cyfrifol o AI mewn gweithleoedd. Lansiwyd y rhaglen Arwain Gwasanaethau Cyhoeddus Modern gan y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol. Drwy ein cynlluniau peilot ar y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol edrychwyd ar gymorth i breswylwyr tai cymdeithasol, a chyhoeddwyd y cam nesaf o ran gweithgarwch cynhwysiant digidol. I gefnogi'r economi ddigidol, buom yn gweithio gyda Vantage Data Centers i ddod â rhan o fuddsoddiad gwerth £12bn i Gymru. Drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, fe wnaethom hefyd ariannu Banc Data SAIL am gyfnod o 5 mlynedd arall. Er mwyn uwchraddio ein seilwaith digidol a chyfathrebu, cynorthwywyd Trafnidiaeth Cymru i sicrhau mynediad masnachol i gapasiti ffeibr ar hyd rheilffyrdd y Cymoedd. Croesawyd arloesi hefyd drwy gysylltu bws gwledig, sef StarBws, â'r rhyngrwyd – a hynny drwy loeren a ffôn symudol. Diwygiwyd Rheoliadau Adeiladu i wneud band eang Gigabit yn orfodol mewn cartrefi newydd; cyflawnwyd gwaith gosod pibelli telathrebu ar hyd cefnffyrdd y De a rhoddwyd cyllid i gynghorau i gyflawni prosiectau'r Gronfa Band Eang Lleol. |
| 38 | Creu sylfaen ddeddfwriaethol fodern ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru. | Ar 31 Mawrth 2025, cyflwynwyd Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) gerbron y Senedd. Mae'r Bil yn nodi newid sylweddol yn y ffordd y caiff gwasanaethau bysiau lleol Cymru eu darparu. Bydd Trafnidiaeth Cymru, gan ymgynghori â'r awdurdodau lleol a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, yn sefydlu rhwydwaith bysiau a fydd yn rhoi blaenoriaeth i anghenion pobl Cymru ac yn ategu'n targedau uchelgeisiol ar gyfer newid dulliau teithio a'n targedau ar allyriadau carbon. |
| 39 | Codi'r gwaharddiad ar awdurdodau lleol rhag sefydlu cwmnïau bysiau trefol newydd. | Ar 31 Mawrth 2025, cyflwynwyd Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) gerbron y Senedd. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n ceisio codi'r gwaharddiad ar awdurdodau lleol rhag sefydlu cwmnïau bysiau newydd sydd ym mherchnogaeth y cyhoedd a hynny am y tro cyntaf ers dadreoleiddio'r diwydiant drwy Ddeddf Trafnidiaeth 1985. |
| 40 | Deddfu i foderneiddio'r sector tacsis a cherbydau preifat a mynd i'r afael â phroblemau trawsffiniol. | Er nad yw Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, mae'r gwaith paratoi ar gyfer Bil wedi parhau. Rydym wedi canolbwyntio ar un o dargedau cyflawnadwy allweddol y Bil sef cyflwyno safonau cenedlaethol gorfodol ar gyfer y sector. Cyn cyflwyno deddfwriaeth, rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill (gan gynnwys cynrychiolwyr gyrwyr) i ddatblygu safonau cenedlaethol a fydd ar gael i awdurdodau lleol i'w defnyddio yn wirfoddol yn y lle cyntaf fel y gellir eu treialu, eu profi ac, os oes angen, eu newid cyn eu gwneud yn orfodol yn ddiweddarach. Yn yr un modd, mewn ymateb i geisiadau gan y sector, rydym wedi bod yn datblygu rhaglen hyfforddi genedlaethol i'w defnyddio'n wirfoddol gan awdurdodau lleol cyn cyflwyno deddfwriaeth. Drwy sicrhau bod gofynion trwyddedu a hyfforddiant yn gyson ledled Cymru, rydym yn gobeithio cael gwared ag un o brif achosion sylfaenol problemau trawsffiniol. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 41 | Rhoi ein Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru ar waith. | Mae cynnydd wedi'i wneud eleni o ran *Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru* ac mae llawer o ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022-2027 wedi'u cyflawni. Ym mis Mawrth 2025, cyflwynwyd y Bil Bysiau gerbron y Senedd gan amlinellu ffordd newydd o gynnal ein systemau bysiau. Mae gwaith trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn parhau i fynd rhagddo, ac mae llawer o lwybrau ledled Cymru yn elwa ar fuddsoddiad gwerth £800m mewn cerbydau newydd. |
| 42 | Adeiladu ar lwyddiant ein cynllun teithio am ddim i bobl hŷn ac edrych ar sut y gall prisiau teg annog teithio integredig. | Rydym wedi parhau i ddarparu cyllid i sicrhau bod pobl dros 60 oed a phobl anabl yn gallu mwynhau teithio ar fws am ddim. Eleni, byddwn yn adeiladu ar hyn drwy gyflwyno cynnig gwell ar gyfer teithio ar fysiau i'r rhai sy'n 16-21 oed, a fydd yn elwa ar brisiau wedi'u capio sef £1 am daith sengl a £3 ar gyfer sawl taith mewn diwrnod. |
| 43 | Gweithio tuag at ein targed newydd o 45% o deithiau drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040, gan bennu nodau mwy ymestynnol lle bo hynny'n bosibl. | Mae'r gwaith llwyddiannus sy'n parhau i fynd rhagddo yn helpu mwy o bobl i wneud siwrneiau gan ddefnyddio dulliau mwy cynaliadwy. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys sicrhau cerbydau newydd gwerth £800m ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd, cyflawni Metro De Cymru, ein deddfwriaeth Diwygio Bysiau, ein cefnogaeth i ddatrysiadau arloesol fel clybiau ceir yng nghefn gwlad Cymru, a chyhoeddi *Cynllun Cyflawni Teithio Llesol 2024 i 2027* a fersiwn wedi'i diweddaru o'r canllawiau Teithio Llesol. Mae cyllid gwerth dros £100m wedi'i ddyfarnu i awdurdodau lleol yn 24/25 ar gyfer prosiectau i helpu i gyflawni *Llwybr Newydd*: strategaeth drafnidiaeth Cymru. Mae hyn wedi helpu i ddarparu cyllid ar gyfer creu cysylltiadau teithio llesol yng ngorsaf Cyffordd Llandudno, gwelliannau i orsaf fysiau Hwlffordd, gorsaf Drenau Aberdaugleddau a'r B5605 yn Newbridge, Wrecsam, y rhaglen Metro Plus Ranbarthol sydd wedi helpu prosiectau fel Cyfnewidfa Rheilffordd Merthyr, Cyfnewidfa Trafnidiaeth y Porth a gwell cyfleusterau parcio a theithio ym Mhont-y-pŵl a New Inn a Chyffordd Twnnel Hafren. Bydd yr Arolwg Teithio Cenedlaethol, a lansiwyd ym mis Mawrth 2025, yn rhoi gwell dealltwriaeth o ganran bresennol y siwrneiau a wneir gan ddefnyddio dulliau cynaliadwy. |
| 44 | Bwrw ymlaen ag adroddiad Comisiwn Burns ar gyfer Casnewydd. | Cynhaliodd Uned Gyflawni bwrpasol yn Trafnidiaeth Cymru waith pellach ar ddylunio, dichonoldeb ac achosion busnes o ran cynigion yr Arglwydd Burns ar gyfer 5 gorsaf newydd ar Brif Linell De Cymru, yn ogystal â dyluniadau ar gyfer newidiadau yng Nghasnewydd a'r cyffiniau, sy'n cysylltu â Chaerdydd a Sir Fynwy. O dan oruchwyliaeth y Cadeirydd annibynnol, yr Athro Simon Gibson CBE, lluniodd y tîm ei drydydd Adroddiad Blynyddol a oedd yn crynhoi'r gwaith technegol sydd wedi'i gyflawni i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar fuddsoddi yn y rheilffyrdd yng Nghymru yn y dyfodol, gan gynnwys y gorsafoedd hyn ac uwchraddio'r prif linellau. Yn fwy lleol, rydym hefyd yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol a chynrychiolwyr rhanbarthol i benderfynu ar y newidiadau gorau y gellir eu gwneud, a pha bryd a sut y dylid eu gwneud, er mwyn gwella opsiynau teithio ar draws de-ddwyrain Cymru. Er enghraifft, yn 24/25, cafodd ymgyngoriadau cyhoeddus eu cynnal ar newidiadau i seilwaith ffyrdd yng Nghasnewydd a'r cyffiniau ac rydym wedi ariannu amrywiaeth o brosiectau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â datrysiadau storio beiciau a hyfforddiant arloesol yn y rhanbarth. Yn 24/25, rhoddwyd £1.5m o gyllid i Gyngor Dinas Casnewydd ar gyfer canol Casnewydd ac rydym yn parhau i gyllido Trafnidiaeth Cymru i fwrw ymlaen â'r prosiect ar gyfer lôn feicio a bysiau sy'n cysylltu Casnewydd a Chaerdydd. Yn ehangach yn 24/25, drwy gymorth 6 grant trafnidiaeth Awdurdodau Lleol, rhoddwyd cyllid gwerth £55m i gymunedau yn y rhanbarth i wella trafnidiaeth yn y De-ddwyrain. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 45 | Datblygu cronfa prif ffyrdd newydd i wella atyniad a bioamrywiaeth ardaloedd wrth ymyl prif lwybrau trafnidiaeth Cymru. | Ym mis Hydref 2023, cyhoeddwyd *Llwybr Newydd i Natur – y Cynllun Gweithredu Adfer Natur* ar gyfer ein Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gwaith yn gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac yn cyflawni mesurau gwella cadarnhaol. Mae Llwybr Newydd i Natur yn amlinellu'r camau gweithredu y byddwn yn eu rhoi ar waith i wella sut rydym yn sicrhau buddion i fyd natur o ran rheoli, gweithredu a gwella ein Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Ers datblygu a sefydlu cronfa gwerth £2.4m yn 2024 i gyflawni'r cynllun a'r ymrwymiad hwn, rydym wedi bod yn gwneud cynnydd da, gan hyrwyddo adferiad natur yng Nghymru. Rydym wedi gwella cyfanswm o 144 o hectarau o'r tir rydym yn ei reoli ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ar gyfer sicrhau buddion bioamrywiaeth. Cyflawnwyd hyn drwy gynnal ystod o brosiectau i greu cynefinoedd newydd neu wella cynefinoedd presennol, gan gynnwys plannu cyfanswm o 30,000 o goed a llwyni brodorol newydd, plannu 240,000 o blanhigion a bylbiau brodorol ifanc, sicrhau bod 5.3 hectar o ardaloedd blodau gwyllt wedi'u creu neu eu rheoli'n well a sicrhau bod 46.28 o hectarau o goetir wedi'u gwella ac o dan reolaeth weithredol. Mae'r mesurau hyn yn ychwanegu at atyniad llwybrau drwy wella'r dirwedd. Rydym yn parhau â'n gwaith ar y cyd ag ystod o randdeiliaid i geisio sicrhau buddion i fioamrywiaeth ar draws y rhwydwaith trafnidiaeth ehangach yng Nghymru. |
| 46 | Creu system newydd o gymorth ffermio a fydd yn cynyddu pŵer amddiffynnol natur drwy ffermio, gan werthfawrogi anghenion penodol ffermydd teuluol yng Nghymru a chydnabod y broses o gynhyrchu bwyd lleol sy'n gynaliadwy yn ecolegol. | Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – *Cadw Ffermwyr i Ffermio* a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r undebau ffermio a rhanddeiliaid pwysig eraill i newid y Cynllun arfaethedig. Rydym yn parhau i wrando ar farn rhanddeiliaid i lunio'r Cynllun i sicrhau ei fod yn darparu'r cymorth angenrheidiol ar gyfer diwydiant amaethyddol bywiog a blaengar sy'n manteisio i'r eithaf ar ei fuddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Roedd yr amlinelliad o'r Cynllun a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024 yn nodi'r sefyllfa dros dro. Nid yw Gweinidogion Cymru wedi gwneud penderfyniad terfynol gan ein bod yn cynnal dadansoddiad economaidd ac asesiad effaith i ddeall yr hyn y bydd y Cynllun yn ei olygu i ffermwyr a chymdeithas yn ehangach. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r cynigion yn erbyn y pedwar amcan Rheoli Tir Cynaliadwy a'r effaith ar incwm busnes fferm, ar gyfer ystod o wahanol fathau a meintiau o ffermydd. Bydd y Cynllun terfynol yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr haf yn 2025, cyn dechrau ym mis Ionawr 2026. |
| 47 | Cyflwyno cyfnod pontio i'r cynllun cymorth ffermio newydd, gan gynnwys parhau â thaliadau sefydlogrwydd, y tu hwnt i dymor y Senedd bresennol. | Yn 2024, fe wnaethom gadarnhau'r defnydd o gyfnod pontio i helpu ffermwyr i symud yn llwyddiannus o'r Cynllun Taliad Sylfaenol i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Yn gynharach eleni, cadarnhawyd Cyfnod Paratoi ar gyfer 2025, gan gynnwys nifer o gynlluniau a mentrau eraill, i roi cyngor a chymorth i ffermwyr cyn y Cyfnod Pontio a fydd yn dechrau ar 1 Ionawr 2026 ac yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2029. Ein bwriad o hyd yw dod â'r Cynllun Taliad Sylfaenol i ben yn raddol yn ystod y Cyfnod Pontio drwy ostwng ei werth bob yn damaid gan ddechrau yn 2026. Bwriad methodoleg taliadau y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw rhoi mwy o sicrwydd i ffermwyr ar y lefel o incwm y gallant ei ddisgwyl drwy'r Cynllun hwnnw. Bwriedir felly i'r dull gweithredu fferm gyfan a'r taliadau cysylltiedig gynnal sefydlogrwydd a gwydnwch busnesau fferm o fewn y cynllun. Mae'r rhaglen yn ymrwymiad hirdymor i helpu ffermwyr fel yr amlinellir yn y *Cynllun Cymorth Amlflwydd ar gyfer y Sector Amaethyddiaeth 2025-2029*. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| **Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn** | | |
| 48 | Comisiynu cyngor annibynnol a fydd yn ymchwilio i lwybrau posibl tuag at sero net erbyn 2035. | Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd y Grŵp gyfres o saith adroddiad terfynol gan felly gyflawni'r ymrwymiad hwn. Rydym wrthi'n ystyried yr adroddiadau hyn. Byddant yn ffurfio rhan o'r sylfaen dystiolaeth a fydd yn sail i'r bedwaredd *Gyllideb Garbon (2031-35)* a'n *Cynllun Sero Net (2026-30)* statudol. |
| 49 | Mynd ar drywydd datganoli'r pwerau sydd eu hangen i'n helpu i gyrraedd sero net, gan gynnwys rheoli Ystad y Goron yng Nghymru. | Mae Gweinidogion Cymru wedi ei gwneud yn glir bod angen pwerau ychwanegol ar Gymru i weithredu'r polisïau sydd eu hangen i gyflawni sero net ac i wneud hynny mewn ffordd sy'n cynorthwyo pontio teg. Yn ein barn ni, byddai datganoli Ystad y Goron, yn unol â'r datganoli i Lywodraeth yr Alban, yn rhoi mwy o hyblygrwydd inni wrth ddewis pa mor bell a chyflym yr ydym yn defnyddio ynni adnewyddadwy a sut yr ydym yn cydbwyso'r argyfyngau hinsawdd a natur. Rydym yn dal i gyflwyno'n hachos i Weinidogion Llywodraeth y DU ac mae'r trafodaethau yn parhau i fod yn adeiladol. Mae cytundeb o hyd yn y Senedd i ddatganoli Ystad y Goron ac mae bron pob awdurdod lleol yng Nghymru hefyd wedi cytuno ar gynigion i'w datganoli. Byddwn yn manteisio ar y gefnogaeth barhaus a chynyddol hon i ddatganoli rhagor o bwerau yn ystod ein trafodaethau â Llywodraeth y DU. |
| 50 | Gweithio tuag at sefydlu Corff Llywodraethu Amgylcheddol, dyletswydd statudol a thargedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth. | Gan adeiladu ar ymgynghoriad Papur Gwyn a gynhaliwyd yn 2024 a gweithgarwch ymgysylltu sy'n parhau, ym mis Mehefin 2025, cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) er mwyn ein helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae'r Bil yn ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru, yn sefydlu corff llywodraethiant newydd i sicrhau goruchwyliaeth gadarn o gydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus Cymru â chyfraith amgylcheddol a sut y maent yn ei gweithredu yn ogystal â fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth. Ar yr un pryd, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiffinio meysydd blaenoriaeth ar gyfer y targedau bioamrywiaeth. Mae'r Asesydd Amgylcheddol Dros Dro yn parhau i oruchwylio gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru ac mae wedi cael 38 o gyflwyniadau hyd yma. |
| 51 | Deddfu i ddiddymu'r defnydd o blastigau untro sydd yn aml yn cael eu taflu fel sbwriel. | Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cyflawni'r cam nesaf o waharddiadau ar gynhyrchion plastig untro a fydd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, yn dod i rym ym mis Rhagfyr 2026 o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023. Ym mis Ebrill 2024, fe wnaethom gyhoeddi ymateb Llywodraethau'r pedair gwlad i ymgynghoriad cyhoeddus y DU gyfan ar y cynigion i wahardd cyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Gan weithio'n agos gyda chymheiriaid ledled y DU, cytunwyd ar ddull gweithredu ar y cyd o ran y gwaharddiadau a gosodwyd ein rheoliadau ym mis Mai 2025, gan nodi cam hanfodol arall i leihau llygredd plastigau a microblastigau. Rydym hefyd wedi datblygu ein cynlluniau i roi effaith i'r gwaharddiadau ar gaeadau polystyren ar gyfer cwpanau neu gynwysyddion cludfwyd, bagiau siopa untro plastig a chynhyrchion sydd wedi'u gwneud o blastig ocso-ddiraddadwy. Penodwyd contractwr i helpu i ddiweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i adolygu a diweddaru'r Asesiad Effaith Integredig. Gan weithio ar draws y DU, fe wnaethom hefyd gyflwyno deddfwriaeth i wahardd cyflenwi fêps untro sy'n aml yn cael eu taflu fel sbwriel ac sy'n gallu cynnwys cyfran sylweddol o blastig. Daeth i rym ar 1 Mehefin 2025. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 52 | **Cyflwyno cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr i gymell busnesau i leihau gwastraff.** | Mae'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynnu wedi'i gyflwyno a daeth i rym ar 1 Ionawr 2025. Mae'r cynllun yn cymell cynhyrchwyr i leihau deunydd pacio diangen a gwella'r dyluniad i gynyddu'r defnydd o ddeunydd sydd wedi'i ailgylchu a symud i ddeunydd pacio y gellir ei ailddefnyddio a'i ail-lenwi. Mae'n cymhwyso'r egwyddor mai'r 'llygrydd sy'n talu' gan wneud cyfraniad hollbwysig at fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur yn ogystal â helpu i adeiladu economi gryfach a gwyrddach. O ganlyniad i'r ffaith ein bod yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn gwasanaethau ailddefnyddio ac ailgylchu a bod awdurdodau lleol yn cael cyllid ar gyfer y gost o ymdrin â'r deunyddiau pacio o dan y cynllun, disgwylir i lywodraeth leol yng Nghymru elwa ar gyllid ychwanegol gwerth dros £90m ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 25/26. Ar y cyd, rydym wedi penodi gweinyddwr cynllun sef PecynUK a byddwn yn parhau i gydweithio i sicrhau bod y cynllun yn cyfrannu at adeiladu ar safle Cymru fel yr ail wlad orau yn y byd am ailgylchu. |
| 53 | **Creu Coedwig Genedlaethol i ymestyn o'r Gogledd i'r De.** | Mae'r Goedwig Genedlaethol bellach yn cynnwys 60 coetir unigol y mae tirfeddianwyr preifat, elusennau, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yn berchen arnynt, ynghyd â 26 o flociau ychwanegol o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys dros 70 o goetiroedd unigol. O ganlyniad, mae dros 130 o goetiroedd unigol amrywiol yn rhan o rwydwaith y Goedwig Genedlaethol, sy'n amrywio o 1 hectar i dros 1,000 hectar, gan gynnwys coetiroedd cymunedol elusennol bach a choedwigoedd cynhyrchiol mawr. Mae cyfanswm maint y Goedwig Genedlaethol ar hyn o bryd yn 68,723 o hectarau. Rydym yn ariannu 6 Swyddog Cyswllt Coedwig Genedlaethol Cymru, sydd wedi'u lleoli yn Cyfoeth Naturiol Cymru, i ddarparu cyngor ar lawr gwlad ar nodau a manteision y Goedwig Genedlaethol a sut y gall coetiroedd wneud cais i ymuno. Maent hefyd yn cynnal Rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol ar gyfer pob safle, gan roi cyngor a chymorth a hwyluso dysgu a chydweithio. Mae safleoedd y Goedwig Genedlaethol yn gwarchod natur, yn mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth ac yn hyrwyddo iechyd a llesiant cymunedau. Rydym yn creu ardaloedd newydd o goetir yn ogystal ag adfer a chynnal coedwigoedd presennol unigryw Cymru, y byddai eu colli'n golygu eu colli am byth. |
| 54 | **Manteisio ar botensial economaidd, diwylliannol a hamdden y Goedwig Genedlaethol gan adeiladu ar ein cynnydd tuag at greu diwydiant coed cynaliadwy.** | Yn rhan o brosiect Cartrefi o Bren Lleol 2, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mae gan Woodknowledge Wales becyn gwaith i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a sefydlu'r Goedwig Genedlaethol, gan ddarparu arbenigedd a datblygu ffyrdd y gall y Goedwig Genedlaethol gyflenwi pren adeiladu o ansawdd uchel, gan sicrhau buddion hamdden ac iechyd ar yr un pryd. Mae Woodknowledge Wales wedi datblygu cyfres o astudiaethau achos, gan gynnwys un sy'n tynnu sylw at ddull amgen Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gwerthu pren, sef mynd â phren o goedwig hysbys i brosesydd hysbys ac yna i brosiect hysbys. Mae astudiaethau achos y Goedwig Genedlaethol wrthi'n cael eu llunio i dynnu sylw at amrywiaeth safleoedd y Goedwig Genedlaethol. Mae'r Goedwig Genedlaethol yn gweithio gyda'r diwydiant coedwigaeth fasnachol ac aelod-sefydliadau cysylltiedig i ystyried sut y gall gynorthwyo ac ychwanegu gwerth at y sector. Un o bynciau seminar Rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol, a gynhaliwyd ym mis Medi 2024, oedd sut y gall safleoedd y Goedwig Genedlaethol fanteisio ar eu potensial economaidd. Mae'r pwnc hwn yn parhau i fod yn destun trafodaeth a dysgu parhaus. |
| 55 | **Datblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol yng Nghymru.** | Er mwyn cryfhau systemau bwyd lleol, gwella bwyta'n iach a chreu cymunedau mwy cynaliadwy ledled Cymru, cyhoeddwyd ein *Strategaeth Bwyd Cymunedol* ym mis Ebrill 2025, gan felly gyflawni'r ymrwymiad hwn. Lluniwyd y strategaeth yn dilyn gweithgarwch casglu tystiolaeth sylweddol, cynnal gwaith ymchwil ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. I sicrhau ei bod yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol, mae Grŵp Cynghori Gweinidogol yn cael ei sefydlu. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 56 | Sicrhau diogelwch tomenni glo drwy gyflwyno deddfwriaeth i ddelio â gwaddol canrifoedd o fwyngloddio, gan gryfhau pwerau'r awdurdodau lleol i sicrhau bod y cyhoedd a'r amgylchedd yn cael eu diogelu. | Ym mis Rhagfyr 2024, cafodd Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) ei gyflwyno gerbron y Senedd. Prif ddiben y Bil yw atal tomenni rhag bygwth diogelwch pobl drwy leihau ymhellach y tebygolrwydd o dirlithriadau. Mae'r Bil yn cyflawni hyn drwy sefydlu Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru a fydd yn gyfrifol am asesu, cofrestru, monitro a rheoli'r holl domenni nas defnyddir yng Nghymru. Mae'r Bil yn gymwys i domenni glo yn ogystal ag i fathau eraill o domenni nas defnyddir. Mae'n cyflwyno cyfundrefn newydd a chadarn er budd pob cymuned yng Nghymru, yn arbennig y cymunedau hynny sydd yng nghyffiniau tomen. Mae'r Bil wrthi'n mynd rhagddo drwy broses graffu'r Senedd. Disgwylir y bydd y Bil, os caiff ei basio gan y Senedd, yn cael y Cydsyniad Brenhinol ac yn dod yn gyfraith ym mis Awst 2025. Bydd yr Awdurdod Tomenni nas Defnyddir yn weithredol o 1 Ebrill 2027 ymlaen. Yn y cyfamser, bydd yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio yn parhau i gynnal archwiliadau rheolaidd, byddwn yn parhau i fapio tomenni nas defnyddir yng Nghymru a bydd ein Grant Diogelwch Tomenni Glo yn parhau i ddyrannu arian i awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod gwaith cynnal a chadw parhaus yn digwydd ar domenni yng Nghymru. |
| 57 | Cyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru, yn gyson â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ac ehangu'r ddarpariaeth o fonitro ansawdd aer. | Mae ein Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol (*Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach*) yn amlinellu ein nodau a'r camau gweithredu y byddwn yn eu rhoi ar waith i wella ansawdd aer a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd pobl, bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a'r economi. Cyflawnodd Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 un o ymrwymiadau'r Cynllun Aer Glân i Gymru a'r Rhaglen Lywodraethu, yn unol â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd gan estyn y ddarpariaeth ar gyfer monitro ansawdd aer. Rydym bellach yn rhoi'r Ddeddf ar waith gan gynnwys datblygu targedau ansawdd aer cenedlaethol newydd, sy'n ystyried canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd, a meithrin gallu i fonitro'r cynnydd tuag at eu cyrraedd yn unol ag amserlenni statudol. Mae'r gwaith yn cael ei lywio gan ein grŵp arbenigol annibynnol sef y Panel Cynghori ar Aer Glân. |
| 58 | Dynodi Parc Cenedlaethol newydd i gwmpasu Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. | Aeth y gwaith i ddynodi pedwerydd Parc Cenedlaethol Cymru rhagddo'n dda gan ganolbwyntio ar gasglu ac asesu tystiolaeth, yn ogystal ag ymgysylltu â'r cyhoedd. Arweiniwyd yr ymdrechion hyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ei rôl statudol fel Awdurdod Dynodi Cymru. Mae nifer o asesiadau allweddol a ddefnyddiwyd i ystyried dynodi Parc Cenedlaethol newydd bellach wedi'u cwblhau. Yn flaenorol, cwblhawyd yr adroddiadau ynghylch Ardal Chwilio, Nodweddion Arbennig, Grymoedd sy'n Peri Newid ac Opsiynau Rheoli, ac eleni, cwblhawyd hefyd yr asesiad Ardaloedd Gwerthuso, yr adroddiad Ardaloedd Ymgeisiol a map. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cwblhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru nifer o asesiadau effaith gan archwilio'r rhyngweithio o ran y Parc Cenedlaethol a'r amgylchedd, y bobl a'r cymunedau o fewn ei ffiniau. Mae'r rhain yn cynnwys ystyriaethau ynghylch y Gymraeg, iechyd, yr economi, y buddion i fyd natur a chydraddoldeb. Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2024, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru ymgynghoriad manwl a daeth bron i 2000 o ymatebion i law. Mae'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad, a fydd yn cael eu hystyried yn fanylach, yn cynnwys trefniadau cyllido, sut y bydd y gwaith cynllunio yn cael ei weinyddu a'r integreiddio â'r sector ynni adnewyddadwy. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 59 | **Cefnogi 80 o ganolfannau ailddefnyddio ac atgyweirio yng nghanol trefi.** | Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a'r trydydd sector i sefydlu canolfannau (neu hybiau) atgyweirio ac ailddefnyddio ledled Cymru. Hyd yma, rydym wedi cynorthwyo 81 o hybiau atgyweirio ac ailddefnyddio ledled Cymru. Bellach, mae gan dros 80% o awdurdodau lleol yng Nghymru o leiaf un hwb yn eu Canolfannau Ailgylchu. Mae'r prosiectau sydd wedi cael cymorth ers 2023 yn cynnwys Cyngor Sir Gwynedd, gan weithio gyda Siop Griffiths, yn prynu eiddo ar gyfer gweithgarwch atgyweirio ac ailddefnyddio; a chymorth i Gymdeithas Tai Adra i adeiladu pum pod hyfforddi, ardal gynadledda a warws. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio gan diwtoriaid a myfyrwyr o Grŵp Llandrillo Menai a fydd yn cael eu hyfforddi yn Hwb Datgarboneiddio Penygroes i addasu ac ailddefnyddio deunyddiau ym maes adeiladu. Ym mis Ebrill eleni, cymeradwywyd 4 prosiect awdurdod lleol arall i'w cyflawni yn 25/26. Mae'r rhain yn cynnwys cyllid i Gyngor Sir y Fflint gyflwyno mentrau ailddefnyddio mewn 5 Canolfan Ailgylchu ac i sefydlu siop ailddefnyddio yng nghanol tref. Rydym hefyd wedi cyllido Benthyg Cymru i gynorthwyo rhwydwaith o 23 o 'Lyfrgelloedd Pethau', sy'n cynnig llogi eitemau pob dydd am gost isel. Rydym hefyd wedi cyllido Caffi Trwsio Cymru i gynorthwyo 126 o gaffis atgyweirio yng nghanol trefi ac mewn cymunedau ledled Cymru. Yn ôl Caffi Trwsio Cymru, a chan ddefnyddio cyfrifiannell carbon Caffi Trwsio Farnham, maent wedi atgyweirio 24,205 o eitemau ers mis Ebrill 2020, sy'n cyfateb i tua 796 o dunelli sydd wedi'u dargyfeirio o safleoedd tirlenwi. |
| 60 | **Cynnal ein polisi o wrthwynebu cloddio am danwydd ffosil yng Nghymru, ar dir ac yn nyfroedd Cymru, gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael inni.** | Nid yw parhau i echdynnu a defnyddio tanwydd ffosil ar gyfer ynni yn gydnaws â'r llwybr at gyflawni sero net ar gyflymder sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Rydym wedi sefydlu polisi ar gyfer echdynnu glo a phetrolewm, ac er yr ystyrir pob cais am ganiatâd yn ôl ei haeddiant ei hun, bwriad Gweinidogion Cymru yw cynnal rhagdybiaeth gref yn erbyn cynlluniau echdynnu newydd mewn unrhyw benderfyniadau cynllunio a thrwyddedu a wneir. Rydym hefyd yn aelod o'r Gynghrair Pŵer ar ôl Glo, sef cynghrair o lywodraethau cenedlaethol ac is-genedlaethol, busnesau a sefydliadau sy'n gweithio i annog y newid o gynhyrchu ynni drwy ddefnyddio pwerdai glo heb systemau rheoli carbon i aer glân. Rydym hefyd yn aelod o'r Gynghrair Tu Hwnt i Olew a Nwy, sef cynghrair ryngwladol o lywodraethau a rhanddeiliaid sy'n cydweithio i hwyluso'r broses o symud yn raddol i ffwrdd o gynhyrchu olew a nwy. Gan gydnabod yr angen i ddatgarboneiddio ein system ynni a hyrwyddo swyddi a thwf gwyrdd, ymgynghorwyd hefyd eleni ar ddulliau polisi ynghylch Dal, Defnyddio a Storio Carbon a hydrogen. |
| 61 | **Ehangu trefniadau i greu neu wella mannau gwyrdd yn sylweddol.** | Mae diogelu a gwarchod natur a bioamrywiaeth Cymru yn rhan hanfodol o'n hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur presennol. Yn 24/25, mae cyllid gwerth dros £18m wedi'i fuddsoddi yn ein Rhaglen Rhwydweithiau Natur er mwyn parhau i wella cyflwr a chysylltedd ein safleoedd gwarchodedig. Mae dros £12m wedi'i fuddsoddi yn y Gronfa Rhwydweithiau Natur, y mae 24 o brosiectau wedi elwa arno, gan annog gweithgarwch ymwneud â chymunedau a meithrin gallu.<br>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwario £6m pellach ar gyflawni Cytundebau Rheoli Tir ac ystod o brosiectau daearol, dŵr croyw a morol cysylltiedig yn rhan o gyflawni'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur. Llwyddodd ein rhaglen fuddsoddi Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, gwerth dros £21m yn 24/25, i ddod â chymunedau at ei gilydd i wella amgylcheddau lleol ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys creu mwy na 518 o safleoedd peillwyr, mwy na 332 o safleoedd tyfu bwyd cymunedol, 219 o fannau gwyrdd, 248 o berllannau cymunedol o goed ffrwythau brodorol ac 20 gardd synhwyraidd therapiwtig a grëwyd gydag elusennau iechyd a GIG Cymru. Yn ystod tymor y Senedd hon, rhagorwyd ar yr holl dargedau allweddol ar gyfer mannau gwyrdd ac mae gwaith cyflawni pellach wedi'i gynllunio. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| **Parhau â’n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau’n codi** | | |
| 62 | Ariannu hyd at 1,800 o staff tiwtora ychwanegol yn ein hysgolion. | Cwblhawyd yr ymrwymiad hwn yn gynharach yn nhymor y Senedd hon. Cafodd y gwaith ei wneud drwy’r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau. Roedd hyn yn darparu cyllid i recriwtio staff ychwanegol er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc, gan sicrhau bod effeithiau’r pandemig ar eu dysgu a’u llesiant yn cael eu lleihau. Cynhaliwyd gwerthusiad a’i gyhoeddi ym mis Mai 2023, gan gadarnhau bod yr ymrwymiad wedi llwyddo y tu hwnt i’r disgwyl: roedd data arolwg monitro o 993 o ysgolion yn galluogi amcangyfrif o gynnydd o 2,452 yn y staff cyfwerth ag amser llawn ar draws ysgolion yng Nghymru. Yn 24/25 darparwyd cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau drwy’r Grant Safonau Ysgolion, gyda £193.5m (97%) ohono wedi’i neilltuo i gefnogi ysgolion a lleoliadau i helpu dysgwyr ledled Cymru. |
| 63 | Adeiladu ar Raglen Gwella Gwyliau’r Haf. | Parhawyd i ddatblygu’r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau’r Haf ‘Bwyd a Hwyl’. Yn ystod haf 2024, darparodd 205 o gynlluniau 13,040 o leoedd i blant mewn ardaloedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Fe wnaeth y gwerthusiad blynyddol diweddaraf o’r rhaglen dynnu sylw at ei llwyddiant o ran cefnogi ymgysylltiad ag ysgolion a chodi dyheadau disgyblion, gan weld effeithiau cadarnhaol ar weithgarwch corfforol, deiet a llesiant emosiynol plant, ynghyd â phresenoldeb yn yr ysgol yn dilyn hynny. Er mwyn ystyried sut y gellir gwneud y mwyaf o’r ddarpariaeth a sicrhau y gall dysgwyr sydd fwyaf mewn angen gael mynediad i’r rhaglen, fe wnaethom hefyd gomisiynu Julie Morgan AS i gynnal adolygiad cyflym o’r rhaglen yn 2024 ac mae ei hargymhellion yn cael eu gweithredu. |
| 64 | Parhau i fodloni’r cynnydd yn y galw am Brydau Ysgol Am Ddim sy’n deillio o’r pandemig ac adolygu’r meini prawf cymhwysedd, gan ymestyn yr hawl cyn belled ag y mae adnoddau yn caniatáu ac i bob plentyn ysgol gynradd o leiaf. | Rydym wedi cynnal ein hymrwymiad i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn o aelwydydd cymwys. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd wedi cwblhau’r broses o gyflwyno prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd. Mae bron i 174,500 o ddysgwyr cynradd newydd yn gymwys i gael pryd o fwyd am ddim. Mae ychydig dros 21.5m o brydau ychwanegol wedi’u gweini rhwng mis Mai 2024 a mis Mawrth 2025 ac mae dros 44m o brydau wedi’u gweini ers lansio’r cynnig i bob plentyn ysgol gynradd ym mis Medi 2022. Mae’r cynllun prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd yn cael ei werthuso, a bydd hyn yn helpu i ddarparu gwersi pwysig a fydd yn helpu i ystyried unrhyw newidiadau yn y dyfodol i feini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Nghymru. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 65 | Buddsoddi yn amgylchedd dysgu ysgolion cymunedol, cydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol. | Yn 24/25, buddsoddwyd £8m i gynyddu nifer y Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd, gyda rhan o'u rôl yn canolbwyntio ar wella presenoldeb ac ailennyn diddordeb dysgwyr yn yr ysgol. Parhawyd i dreialu Rheolwyr Ysgolion Bro, gan ariannu cymorth ychwanegol i deuluoedd, uno gwasanaethau allweddol a thargedu materion yn ymwneud â phresenoldeb, cyrhaeddiad a llesiant. Mae cynnydd da yn parhau i gael ei wneud, a thynnodd Estyn sylw at effaith gadarnhaol dulliau Ysgolion Bro mewn sawl adroddiad arolygu. Fe wnaethom gyhoeddi canllawiau ar ymgysylltu amlasiantaeth, sefydlu'r Rhwydwaith Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd a chydweithio â British Council ar gynhadledd Ysgolion Bro, yn ogystal â chynnal dirprwyaeth o Bacistan. Hefyd, fe wnaethom ddarparu digwyddiadau dysgu proffesiynol i ymarferwyr a chydysylltu'r gwaith o gyflwyno rhaglen ddysgu Ysgolion Bro genedlaethol i deuluoedd gan ddefnyddio'r adnoddau rhieni Siarad â Fi. Mae ein harweinwyr mewn awdurdodau lleol, Rheolwyr Ysgolion Bro a rhwydweithiau Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd yn parhau i dyfu, gan ddarparu cyfleoedd i rannu gwybodaeth, rhoi adborth a myfyrio. Rhwng mis Ebrill 2022 a diwedd mis Mawrth 2025, rydym wedi buddsoddi £58m mewn ysgolion i'w galluogi addasu eu cyfleusterau a dod i ganolbwyntio mwy ar y gymuned. |
| 66 | Ymchwilio i ddiwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol. | Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar y flwyddyn ysgol yn 23/24. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad a'r ymgysylltu ehangach, ym mis Mai 2024 cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, er na fyddai unrhyw newidiadau i batrwm y flwyddyn ysgol yn cael eu gweithredu o fewn tymor y Senedd hon, y byddem yn parhau i ymchwilio, gyda rhanddeiliaid, faterion sy'n ymwneud â'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol. Parhaodd y gwaith hwn drwy gydol 24/25 gyda dysgu ac arferion da yn bwydo i bolisi addysg ehangach gan gynnwys cyfoethogi ac Ysgolion Bro. |
| 67 | Datblygu model cynaliadwy ar gyfer darpariaeth athrawon cyflenwi sydd â gwaith teg yn ganolog iddo. | Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran datblygu model cynaliadwy. Aeth fframwaith asiantaethau cryfach newydd yn fyw yn 2023. O dan y fframwaith, mae'n ofynnol i asiantaethau gofrestru â'r rhwydwaith 'SaferJobs', gan gydymffurfio â gofynion cyflogaeth statudol, a chefnogi'r Hawl i Ddysgu Proffesiynol ar gyfer athrawon cyflenwi. Bellach, mae 98% o'r gwariant yng Nghymru ar weithwyr dros dro mewn lleoliad addysg yn wariant sy'n mynd drwy asiantaethau addysgu a benodwyd i'r fframwaith. Rydym wedi archwilio modelau cyflogaeth amgen y mae athrawon cyflenwi yn cael eu cyflogi drwyddynt yn unol â *Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru)* ac yn gallu manteisio ar Gynllun Pensiwn Athrawon. Mae'r gwaith i ddatblygu Pwll Cyflenwi Cenedlaethol wedi dod i'r casgliad na fydd y model hwn yn cyflawni'r manteision arfaethedig yn genedlaethol oherwydd y gwahanol fodelau cyflogaeth ar draws awdurdodau lleol. Fodd bynnag, bydd y ddealltwriaeth a'r profiad a gafwyd o ymgymryd â gwaith cychwynnol yn Ynys Môn yn cyfrannu'n gadarnhaol at waith pellach i ddatblygu model cynaliadwy ar gyfer athrawon cyflenwi a wneir yn rhan o'r Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg sydd ar ddod gennym. Mae gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn digwydd yn ystod tymor yr haf, a'r gwaith ymgysylltu ag ymarferwyr yn digwydd yn ystod yr hydref. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 68 | Gwella'r trefniadau ar gyfer addysgu hanes Cymru, yn ei holl amrywiaeth a chymhlethdod, fel rhan fandadol o'r cwricwlwm newydd. | Mae hanes Cymru wedi bod yn rhan o'r Cwricwlwm i Gymru ers 2022. Fe wnaethom ddiweddaru'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Dyniaethau yn 2023 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, i sicrhau bod astudiaeth o hanes Cymru yn benodol ac yn orfodol ar gyfer ysgolion a lleoliadau. Rydym yn gweithio'n agos gydag Adnodd (corff Llywodraeth Cymru sy'n goruchwylio'r broses o ddarparu adnoddau dwyieithog i gefnogi addysgu a dysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru) i ddatblygu adnodd llinell amser hanes Cymru. Gyda chefnogaeth Gweithgor Arbenigol, bydd y gwaith hwn yn helpu athrawon i ddefnyddio adnoddau, cyngor a gwybodaeth i ddatblygu dysgu ac addysgu am hanesion deinamig ac amrywiol Cymru. |
| 69 | Mynd â'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drwy'r Senedd. | Yn dilyn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ym mis Medi 2023, a gwblhaodd yr ymrwymiad hwn, daeth yn weithredol ar 1 Awst 2024 ar adeg diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae'r Comisiwn, sydd bellach yn cael ei adnabod fel Medr, yn gyfrifol am strategaeth, cyllido a goruchwylio'r holl sectorau addysg ôl-orfodol yng Nghymru ac mae wedi ei rymuso i sicrhau bod y sector addysg drydyddol ac ymchwil yn cael ei drefnu i ddiwallu anghenion dysgwyr, yr economi, cyflogwyr a'r genedl gyfan yng Nghymru. Yn 2024, cyhoeddwyd ein *Datganiad cyntaf o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi*, fel sy'n ofynnol o dan adran 13 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru ym mis Chwefror 2025, mae Medr wedi cyhoeddi *Cynllun Strategol statudol 2025-2030* yn ddiweddar, sy'n cynnwys manylion y camau y mae'n bwriadu eu cymryd i fodloni ei ddyletswyddau strategol a mynd i'r afael â blaenoriaethau Gweinidogion Cymru. Rydym yn parhau i weithio gyda Medr a rhanddeiliaid ar draws y sector i barhau i weithredu'r holl ddiwygiadau y darperir ar eu cyfer yn Neddf 2022. |
| 70 | Datblygu strategaeth arloesi genedlaethol newydd, sy'n seiliedig ar genhadaeth, i'w gweithredu ar draws y llywodraeth a chan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. | Yn dilyn ymgynghoriad helaeth, cafodd strategaeth arloesi sy'n seiliedig ar genhadaeth, *Cymru'n Arloesi: Creu Cymru gryfach, decach a gwyrddach*, ei chyhoeddi ym mis Chwefror 2023 ac fe'i hategwyd gan Gynllun Cyflawni ym mis Hydref 2023. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gwblhau bellach. |
| 71 | Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig gymryd rhan yn Rhwydwaith Seren. | Caiff yr ymrwymiad hwn ei adlewyrchu yng ngweledigaeth Academi Seren gan mai un o'n pedwar gwerth yw hyrwyddo tegwch cyfle, mynediad teg, a darpariaeth sy'n rhoi blaenoriaeth i anghenion y dysgwr. Cyhoeddwyd ein Model Cyflawni ar ei newydd wedd ym mis Mai 2025 a'i nod yw darparu cynnig mwy cyson i ddysgwyr ledled Cymru. Mae'r porth ar-lein bellach yn cofrestru holl ddysgwyr Seren Blwyddyn 10-13 ac yn casglu eu data demograffig. Ar hyn o bryd mae'n nodi ar gyfer blwyddyn academaidd 24/25 bod 15% o ddysgwyr Seren o gefndir difreintiedig. Ym mlwyddyn academaidd 23/24, yr ymyriad â'r ymgysylltiad uchaf o ddysgwyr difreintiedig oedd profiad preswyl Prifysgol Caergrawnt gyda 36.1%. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| **Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math** | | |
| 72 | Gweithredu ac ariannu'r ymrwymiadau a wnaed yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. | Mae cynnydd sylweddol yn parhau i gael ei wneud wrth gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gyda thystiolaeth glir o'i effaith yn dod i'r amlwg ar draws sectorau. Mae'r cynllun wedi'i adnewyddu, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024, yn ailddatgan ein huchelgais i gyflawni Cymru wrth-hiliol erbyn 2030. Mae tri chynullydd rhanbarthol bellach wedi'u penodi, gan gryfhau'r ymgysylltu cymunedol a sicrhau bod lleisiau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn llywio ein gwaith. Mae adolygiad o lywodraethiant Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wedi cryfhau craffu ac atebolrwydd allanol. Mae partneriaid allanol bellach yn cael eu gwahodd i is-grŵp y Grŵp Atebolrwydd Allanol i gynorthwyo gwell cydgysylltu a herio. Yn unol â blaengynllun gwaith y Grŵp Atebolrwydd Allanol, mae'r cyd-gadeiryddion wedi dechrau ymgysylltu yn uniongyrchol â chyrff rheoleiddio, e.e., Medr, EHRC, Estyn, is-gangellorion a chadeiryddion byrddau cyhoeddus, i ymgorffori arweinyddiaeth wrth-hiliol ymhellach. Ym maes iechyd, mae Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu yn cael ei gweithredu, gyda Chymru bellach y genedl gyntaf yn y DU i gasglu data Cymru gyfan sy'n cwmpasu profiadau staff gofal sylfaenol, gofal cymdeithasol a staff y GIG. Mae cyllideb o £6.85m wedi'i sicrhau ar gyfer 25/26 i gyflawni'r polisi Cenedl Noddfa — cynnydd o £2m o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan alluogi gwell cefnogaeth i geiswyr noddfa. Ym maes tai, mae'r gynrychiolaeth o ran aelodau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar fyrddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi cynyddu i 9%, a bellach yn rhagori ar y gyfran yn y boblogaeth gyffredinol. |
| 73 | Edrych ar ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â bylchau cyflog ar sail rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, anabledd, a ffurfiau eraill ar wahaniaethu. | Rydym wedi archwilio deddfwriaeth i fynd i'r afael â bylchau cyflog ac wedi trafod gyda phartneriaid cymdeithasol ac eraill sut y gellir cymhwyso adroddiadau am fylchau cyflog presennol yn fwy cyson. Mae'r cyd-destun deddfwriaethol ehangach hefyd yn esblygu. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r Bil Hawliau Cyflogaeth, sy'n adeiladu ar adroddiadau presennol ar y bwlch cyflog o ran rhywedd drwy gynnwys darpariaethau ar gyfer Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb. Yn ogystal, mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar Fil Cydraddoldeb newydd a fydd, am y tro cyntaf, yn cyflwyno gofyniad i adrodd am fwlch cyflog o ran ethnigrwydd ac anabledd. Rydym yn cydweithio â Llywodraeth y DU i wneud yn siŵr bod y ddeddfwriaeth newydd hon o fudd i Gymru ac i ystyried sut y bydd angen i ni, efallai, ddiwygio neu gryfhau ein Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru. |
| 74 | Sicrhau bod cyrff cyhoeddus a'r rhai sy'n cael arian cyhoeddus yn mynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog. | Gan weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, gwnaeth Grŵp y Sector Datganoledig, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, undebau llafur a chyflogwyr, argymhelliad i safoni isafswm graddfeydd cyflog ar draws y sector. Cytunodd Gweinidogion Cymru ar y cynnig ym mis Mehefin 2022, gyda newidiadau yn arwain at addasu cyflog oddeutu 500 o staff mewn naw corff hyd braich (a swyddfeydd Comisiynwyr). Roedd hyn yn sicrhau na fyddai'r isafswm cyflog ar gyfer swydd yn y cyrff hynny yn llai na'r hyn a delid i staff ar raddfa gyfatebol yng ngwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru. Mae'r cydraddoldeb hwn bellach yn rhan annatod o'r canllawiau cylch gwaith cyflog blynyddol a roddir i gyrff hyd braich. Ers 2023 mae'r canllawiau hyn wedi tynnu sylw at yr ymrwymiad hwn ac yn parhau i gefnogi newidiadau pellach sy'n symud cyrff tuag at gysoni. Mae hefyd yn ailadrodd dyletswyddau adrodd cydraddoldeb cyflog a thryloywder ehangach, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â thâl uwch-swyddogion a bylchau cyflog. Mae gwaith yn parhau i archwilio cydraddoldeb pellach, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â thelerau ac amodau ehangach gweithwyr. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 75 | Treialu dull o ymdrin â'r Incwm Sylfaenol. | O fis Gorffennaf 2024 ymlaen, dechreuodd pobl ifanc gyrraedd diwedd eu 24 mis o daliadau a gadael y cynllun peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru. Dangosodd data monitro a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024 fod 638 yn derbyn incwm drwy'r peilot ar 31 Gorffennaf 2024. Mae pobl ifanc wedi parhau i gael gafael ar y cyngor a'r gefnogaeth a roddwyd ar waith ar gyfer y cynllun peilot drwy'r Gronfa Gynghori Sengl, a ddarperir gan Gyngor ar Bopeth, yn enwedig tua'r adeg y maent yn gadael y peilot. Mae nifer y bobl ifanc sy'n cael mynediad ato hefyd yn gostwng fel y disgwylir wrth i fwy o bobl ifanc adael y peilot. Mae'r gwaith gwerthuso yn parhau a chyhoeddwyd yr ail adroddiad gwerthuso blynyddol ym mis Mawrth 2025. Mae'r adroddiad yn tynnu ar brofiadau a safbwyntiau pobl sy'n gadael gofal am y peilot, a'r rhai sy'n darparu cymorth iddynt (cynghorwyr personol, gofalwyr maeth, gofalwyr sy'n berthynas, rhieni) yn ystod blwyddyn gyntaf y peilot ac mae'n cyflwyno dadansoddiad a myfyrdodau ar weithredu. |
| 76 | Sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd, ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu cynrychioli'n briodol drwy fuddsoddi ymhellach yn ein sector diwylliannol a'n rhwydwaith amgueddfeydd. | Drwy gynlluniau grant cystadleuol ac wedi'u targedu, fe wnaethom ddarparu cymorth i dros 80 o sefydliadau. Mae'r grantiau hyn wedi cefnogi cyflawni nodau a chamau gweithredu diwylliant, treftadaeth a chwaraeon yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae cyllid i gyrff noddedig a sefydliadau sector lleol wedi canolbwyntio ar newid cynaliadwy, hirdymor o ran ymgorffori arferion gwrth-hiliol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Drwy'r Cynllun Grant Diwylliant ar gyfer sefydliadau ar lawr gwlad, rydym wedi ceisio grymuso pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i greu gweithgareddau diwylliannol sy'n golygu rhywbeth iddyn nhw, cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn a chysylltu â nhw. Mae'r cyllid hwn hefyd wedi helpu i gryfhau eu gallu a'u hyder i wneud cais llwyddiannus am gyllid, boed hynny drwy Lywodraeth Cymru neu drwy ein partneriaid. Bydd gwerthusiad allanol o'r rhaglen ariannu, a gwblhawyd ym mis Ebrill 2025, yn cefnogi ein dysgu ac yn gwella dulliau ariannu a mecanweithiau cyflawni yn y dyfodol. |
| 77 | Sicrhau bod ein system trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru'n fwy hygyrch i bobl anabl. | Roedd ein datganiad Teithio i Bawb i'r Senedd ym mis Ebrill 2025 yn nodi rhai o'r camau yr ydym yn eu cymryd i wella hygyrchedd, cynhwysiant a chyfranogiad yn ein rhwydweithiau trafnidiaeth. Mae ein buddsoddiadau mewn cerbydau a Llinellau Craidd y Cymoedd wedi darparu mynediad gwastad i bobl o'r platfform i'r trên ar ein rhwydwaith. Fe wnaethom hefyd sefydlu Bwrdd Teithio Cynhwysol a phanel Anabledd a Hygyrchedd dan arweiniad pobl anabl, sefydlu archwiliad hygyrchedd rheilffyrdd ac adnewyddu ein canllawiau Teithio Llesol i wella hygyrchedd dylunio strydoedd. |
| 78 | Parhau â'n partneriaeth gref â mudiadau gwirfoddol ar draws ein holl gyfrifoldebau. | Rydym yn cydnabod rôl a gwerth y sector a'r gwirfoddolwyr wrth helpu i gyflawni polisïau ar draws pob portffolio, ymateb i anghenion aelwydydd unigol drwy fanciau bwyd, helpu pobl i gael mynediad i'n Cronfa Cymorth Dewisol neu ddarparu gwasanaethau cyngor ac eiriolaeth. Rydym yn parhau i gefnogi'r sector drwy fuddsoddi yn Cymorth Trydydd Sector Cymru, Newid Cymru i wella sgiliau digidol y sector a Chredydau Amser Tempo. Yn ogystal, mae'r Rhaglen Ymddiriedolaeth Adfywio, partneriaeth gyda'r Comisiwn Elusennau a'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, bellach wedi adfywio dros £12m ers iddi ddechrau yn 2022. Gan gydnabod yr heriau parhaus sy'n wynebu'r sector, cytunwyd ar y cod ymarfer diwygiedig ar gyfer ariannu'r trydydd sector a datblygu *Dull Newydd o Wirfoddoli*. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 79 | Rhoi targedau ar waith ynghylch Cyllidebu ar sail Rhyw. | Bwriad ymgorffori cyllidebu ar sail rhywedd yn ein prosesau cyllideb a threth yw gwella ein gallu i asesu sut y gallai penderfyniadau yn y meysydd hyn effeithio ar gyfleoedd economaidd a chymdeithasol menywod a dynion. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion i ddeall yn well beth yw goblygiadau gwahanol ddewisiadau, gwneud penderfyniadau mwy gwybodus a sicrhau canlyniadau mwy cyfartal. Dros y tymor hwn, ymgymerwyd â thri chynllun peilot i ystyried dull cyllidebu ar sail rhywedd. Bydd yr hyn a ddysgwyd o'r cynlluniau hyn yn cael ei gyhoeddi yn 2025 ac maent yn helpu i lywio ein dull o gyllidebu ar sail rhywedd, gan symud ymlaen tuag at weithredu newid systemig. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â Grŵp Cyllideb Menywod Cymru, y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb (BIIAG) a chymheiriaid rhyngwladol. Rydym hefyd yn parhau i gymryd rhan yn rhwydwaith Llywodraethau Llesiant i rannu arferion da a meysydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Mae cyllidebu ar sail rhywedd yn rhan o gynllun gwaith 2025 ar gyfer BIIAG ac mae'n rhan o'r adolygiad parhaus o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol gan Lywodraeth Cymru. |
| 80 | Cryfhau'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal â'r cartref. | Cyhoeddwyd ein strategaeth *Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: 2022 i 2026* ym mis Mai 2022. Cryfhawyd hyn ym mis Mawrth 2023 ar ôl cyhoeddi'r Glasbrint a oedd yn nodi'r camau gweithredu i gyflawni'r ffrydiau gwaith sy'n canolbwyntio ar aflonyddu ar sail rhywedd ym mhob man cyhoeddus ac aflonyddu yn y gweithle, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddwyd ein cynnydd yn erbyn y Glasbrint. O ran trais yn erbyn menywod mewn mannau cyhoeddus – comisiynodd y ffrwd waith ymarfer mapio i roi trosolwg o fentrau presennol ledled Cymru sy'n ceisio atal aflonyddu ar sail rhywedd mewn mannau cyhoeddus, neu ymateb iddo. Bydd y ddogfen hon bellach yn ddogfen fyw i adlewyrchu datblygiadau parhaus a nodi arferion gorau a bylchau sy'n dod i'r amlwg yn y ddarpariaeth. Fe wnaethom hefyd gomisiynu ymgyrch gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o aflonyddu ar sail rhywedd mewn mannau cyhoeddus, a gafodd ei siapio gan aelodau'r ffrwd waith. O ran trais yn erbyn menywod yn y gweithle – lansiodd y ffrwd waith gyfres o gynadleddau ar gyfer arweinwyr y sector cyhoeddus a phartneriaid allweddol ledled Cymru i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol yn y gweithle. Mae dau ddigwyddiad wedi cael eu cynnal hyd yma, yng Nghaerdydd a Wrecsam, gyda thrydydd digwyddiad wedi'i gynllunio ar gyfer Aberystwyth yr haf hwn. Cafwyd adborth cadarnhaol gan arweinwyr y sector cyhoeddus a oedd yn bresennol, a oedd yn cynnwys tystiolaeth bwerus gan oroeswyr. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| **Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu** | | |
| 81 | Sefydlu Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol. | Sefydlwyd y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol yn 2022 gan gwblhau'r ymrwymiad hwn, gyda'r nod o gefnogi plant a phobl ifanc i elwa ar gyfleoedd i chwarae offeryn cerddorol, i ganu, ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau creu cerddoriaeth. Daeth cam cyntaf y rhaglen i ben ym mis Mawrth 2025, ac yn ystod y cyfnod hwn, mae cynnydd ac effaith y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol wedi'i fonitro'n agos, yn enwedig drwy werthusiad annibynnol parhaus. Mae'r dystiolaeth a'r data'n dangos bod y gwasanaeth wedi cefnogi newid mawr o ran gwella dulliau i gefnogi addysg cerddoriaeth, a datblygu ffyrdd o weithio ar y cyd â phartneriaid cyflawni allweddol. Mae hyn yn ei dro wedi meithrin gweledigaeth hirdymor bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, waeth beth fo'u cefndir, yn gallu manteisio ar addysg cerddoriaeth o safon mewn modd cynaliadwy a theg. Drwy dynnu sylw at y ddarpariaeth allweddol, mae'r rhaglen 'Profiadau Cyntaf' wedi ymgysylltu â mwy na 90 y cant o ysgolion cynradd, gan ddarparu cymorth i dros 64,000 o ddysgwyr. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi datblygu pecyn pwrpasol i gefnogi darpariaeth cerddoriaeth i bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Drwy bartneriaeth â Chelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cefnogi adferiad darpariaeth ensembles cerddoriaeth. |
| 82 | Cyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll twristiaeth. | Cyflwynwyd y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) ym mis Tachwedd 2024, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Bydd y Bil yn darparu pŵer yn ôl disgresiwn i brif gynghorau gyflwyno ardoll ymwelwyr ar arosiadau dros nos yn eu hardal. Dyma'r ardoll leol unigryw gyntaf i gael ei chynllunio, ei chyflwyno a'i deddfu yng Nghymru ers cannoedd o flynyddoedd. Mae hefyd yn darparu pwerau i Awdurdod Cyllid Cymru sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr a'u heiddo ledled Cymru. Am y tro cyntaf, bydd hyn yn galluogi dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o'r sector llety i ymwelwyr ar draws Cymru ac yn cefnogi Awdurdod Cyllid Cymru gyda'r gwaith o gasglu a rheoli'r ardoll ymwelwyr yn effeithiol. Cafodd y Bil ei basio gan y Senedd fis Gorffennaf 2025. |
| 83 | Deddfu i gryfhau a chynyddu ein darpariaeth mewn addysg Gymraeg. | Cafodd Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ei gyflwyno yn y Senedd ym mis Gorffennaf 2024. Nod y Bil hwn yw sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol. Cafodd ei basio gan y Senedd ym mis Mai 2025, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. |
| 84 | Symleiddio'r broses ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg. | Yn 24/25 fe wnaethom barhau i chwilio am gyfleoedd i symleiddio'r broses o weithredu safonau a chyflawni'r ymrwymiad hwn drwy ychwanegu 6 chorff ac Awdurdodau Iechyd Arbennig at reoliadau safonau presennol yn hytrach na pharatoi set bwrpasol o reoliadau ar gyfer y cyrff hynny. Yn ogystal, rydym wedi ychwanegu cyrff newydd at reoliadau safonau presennol drwy ddeddfwriaeth sy'n sefydlu'r cyrff hynny. Mae'r dull symlach hwn o fudd i'r cyrff eu hunain yn ogystal ag i Gomisiynydd y Gymraeg, sy'n gallu gosod safonau ar gyrff newydd cyn gynted â phosibl. Erbyn hyn mae dyletswydd ar dros 130 o gyrff i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 85 | Gweithredu safonau'r Gymraeg ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus; rheoleiddwyr yn y sector iechyd; cyrff cyhoeddus sydd newydd eu sefydlu a chwmnïau dŵr; a dechrau'r gwaith o weithredu safonau ar gyfer cymdeithasau tai. | Pasiwyd rheoliadau gan y Senedd ym mis Mawrth 2025 a oedd yn gwneud safonau'r Gymraeg yn gymwys i 6 o gyrff cyhoeddus ac Awdurdodau Iechyd Arbennig. Daeth y rhain i rym ar ddiwedd mis Mawrth 2025 a oedd yn caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg ddechrau gweithio gyda'r cyrff i weithredu'r safonau. Dyma'r drydedd set o reoliadau a basiwyd yn ystod tymor y Senedd hon, yn ogystal â'r rheoliadau sydd eisoes wedi'u paratoi ar gyfer rheoleiddwyr gofal iechyd a chwmnïau dŵr a charthffosiaeth, i ychwanegu mwy o gyrff at y system safonau. Cafodd y corff newydd, Medr, hefyd ei wneud yn ddarostyngedig i safonau drwy'r ddeddfwriaeth a'i sefydlodd. Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig a Chorff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ('Llais') hefyd bellach yn gweithredu safonau ar ôl cael eu gwneud yn ddarostyngedig i safonau drwy'r ddeddfwriaeth a'u sefydlodd. Mae gwaith wedi parhau ar baratoi rheoliadau i ychwanegu cymdeithasau tai at y system safonau ac rydym wedi dechrau edrych ar sut y gall safonau gyfrannu at newidiadau sydd ar ddod i'r sector trafnidiaeth gyhoeddus. |
| 86 | Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei siarad mewn rhagor o leoedd, gan gynnwys gweithleoedd. | Yn 24/25, dyfarnwyd grant i Cwmpas i gefnogi'r gwaith o greu mannau cydweithredol Cymraeg newydd sy'n meithrin y defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau. Fe wnaethom hefyd fuddsoddi £200k yn y cynllun grantiau bach 'Perthyn', a oedd yn cefnogi 16 o grwpiau cymunedol yn 24/25 i droi eu syniad yn fentrau cymdeithasol Cymraeg. Ers ei sefydlu yn 22/23, mae dros 60 o grantiau bach wedi'u dyfarnu i gefnogi a sefydlu cydweithfeydd cymunedol. Mae mannau Cymraeg eu hiaith yn ganolog i Raglen ARFOR, ac mae sefydliadau sy'n derbyn cefnogaeth yn ymrwymo i egwyddorion ARFOR ac yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i fabwysiadu cynllun Cynnig Cymraeg y Comisiynydd. Rydym yn parhau i ariannu rhaglen ARFer Prifysgol Bangor, menter addewid ymddygiadol sy'n annog siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach yn y gweithle. |
| 87 | Creu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg. | Cyhoeddwyd y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* ym mis Hydref 2022, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Parhau mae'r gwaith o roi'r cynllun ar waith. Ym mis Awst 2024, cyhoeddodd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg eu hadroddiad *Grymuso Cymunedau, Cryfhau'r Gymraeg*. Mae'r adroddiad yn cynnwys 57 o argymhellion. Cyhoeddwyd ein hymateb i ganfyddiadau'r adroddiad a'i argymhellion ym mis Mai 2025. Ym mis Chwefror 2025, cyhoeddodd y Comisiwn adroddiad pellach ar Gynllunio Gwlad a Thref. Mae cynllun Gwobr Arian y Llysgenhadon Diwylliannol wedi'i gyhoeddi, ac mae 250 o unigolion wedi dilyn modiwlau Llysgenhadon Diwylliannol. Mae cydweithrediad agos wedi digwydd rhwng y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg a'r Rhaglen ARFOR. Mae rhannu gwybodaeth ac arferion da wedi bod yn rhan bwysig o'r cydweithrediad, yn enwedig mewn perthynas â Perthyn. Mae ARFOR hefyd wedi cyhoeddi gwaith sy'n edrych ar heriau ail gartrefi, yn ogystal â fforddiadwyedd ac argaeledd tai i bobl ifanc, gan dynnu sylw at y cynlluniau sydd gan randdeiliaid perthnasol i liniaru'r heriau. |
| 88 | Ymchwilio i greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru a darparu buddsoddiad ychwanegol i ddatblygu mentrau i wella'r cyfryngau a newyddiaduraeth yng Nghymru. | Fe wnaethom gyflawni'r ymrwymiad i edrych ar y gwaith o greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru drwy gyhoeddi adroddiad y panel arbenigol, *Dyfodol newydd ar gyfer darlledu a chyfathrebu yng Nghymru*, ym mis Awst 2023. Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn y cyfryngau ac mewn newyddiaduraeth yn 24/25. Dyfarnwyd £100k i Rwydwaith Radio Cymunedol Cymru i ddarparu Cronfa Radio Cymunedol a darparwyd cyllid ychwanegol ar gyfer ail flwyddyn prosiect gohebwyr y Senedd. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 89 | Mynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli pwerau darlledu a chyfathrebu. | Yn 24/25, mae Cymru Greadigol wedi gweithio gyda rhanddeiliaid darlledu gan gynnwys Adran Llywodraeth y DU dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Ofcom, darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus, Teledwyr Annibynnol Cymru a Pact i sicrhau bod anghenion Cymru yn cael eu hystyried wrth ddatblygu rheoliadau, polisïau ac ymyriadau perthnasol. Mae hyn wedi cynnwys parhau i ddadlau'r achos dros rôl gryfach wrth benodi i Fwrdd S4C. |
| 90 | Ymgysylltu â sector y celfyddydau, y sector diwylliant a'r sector treftadaeth i ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd. | Fe wnaethom ymgynghori ar y Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant, o fis Mai i fis Medi 2024. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol, gan nodi lefelau da o gefnogaeth a chyhoeddwyd Crynodeb o'r Ymatebion ym mis Ionawr 2025. Cyhoeddwyd *Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant* ym mis Mai 2025, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. |
| 91 | Buddsoddi yn ein theatrau a'n hamgueddfeydd, gan gynnwys ymrwymo i Theatr Clwyd, sefydlu'r Amgueddfa Bêl-droed a'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol. | Mae'r gwaith o ailddatblygu Theatr Clwyd wedi parhau i fynd rhagddo, gyda chefnogaeth ariannol o £26.5m gan Lywodraeth Cymru, ac fe ailagorodd yn swyddogol fis Gorffennaf. Fe wnaethom hefyd ddarparu £5.5m i Amgueddfa Bêl-droed Cymru yn Wrecsam sydd i fod i agor yn ystod gwanwyn 2026. Wrth i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau, mae storfa gasgliadau newydd wedi'i chreu oddi ar y safle ac mae amgueddfa dros dro wedi agor i gynnal digwyddiadau, arddangosfeydd a gweithgareddau. Yn dilyn ein buddsoddiad yn y rhwydwaith gwasgaredig o naw oriel ar gyfer Celf – Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol Cymru, mae'r orielau bellach yn weithredol. |
| 92 | Hyrwyddo mynediad cyfartal at chwaraeon a chefnogi athletwyr ifanc a thalentog a chlybiau llawr gwlad. | Drwy gydol 24/25, mae Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid wedi gweithredu nifer o fentrau i hybu amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r cyllid a ddyrannwyd wedi'i ddefnyddio i wella cyfleusterau chwaraeon, gan gynnwys dingis hwylio, canolfannau ffitrwydd, trampolinau, cyrtiau badminton, campfeydd athletau, llwybrau canŵio hygyrch, bocsio realiti rhithwir, ac ymarfer corff Deallusrwydd Artiffisial (AI) wedi'u personoli. Er enghraifft, mae Grŵp Cynghori Sir Benfro ar Dlodi Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol yn gweithio ar gynigion chwaraeon cynhwysol. Mae StreetGames hefyd wedi partneru â Phêl-rwyd Cymru a Phêl-fasged Cymru i ddarparu cyfleoedd chwaraeon i gymunedau heb eu gwasanaethu'n ddigonol drwy fentrau fel Blitz Netball Activator a Nothing But Nets. Mae Chwaraeon Anabledd Cymru yn cefnogi digwyddiadau jiwdo cynhwysol a chynhaliodd Chwaraeon Cymru drafodaethau bord gron ar effaith mislif ar gyfranogiad mewn chwaraeon. Nod y rhaglen LeaderHERship a lansiwyd gan Dîm Cymru, y corff sy'n gyfrifol am gyfranogiad Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad, yw cynyddu cynrychiolaeth menywod mewn rolau arwain ym maes chwaraeon a busnes. |
| 93 | Cefnogi'r cais i nodi tirwedd llechi'r Gogledd-orllewin fel Safle Treftadaeth y Byd. | Ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaeth Pwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO gofrestru Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru ar y Rhestr o Safleoedd Treftadaeth y Byd, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Yn dilyn y cofrestriad, mae Cadw yn cymryd rhan weithredol yn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Lechi Gogledd-orllewin Cymru. Mae'n rhan o'r Bwrdd Partneriaeth ac mae ganddo gynrychiolaeth ym mhob rhan o'r strwythur llywodraethiant. Mae cydgysylltydd Treftadaeth y Byd wedi'i benodi (wedi'i gyd-ariannu gan Cadw), ac mae Cadw wedi ariannu'r llyfryn *Gofalu am Dirweddau Llechi Cymru.* |
| 94 | Datblygu cynlluniau ar gyfer Amgueddfa'r Gogledd. | Ym mis Gorffennaf 2024 cyhoeddwyd mai ein blaenoriaeth oedd diogelu a gwarchod ein sefydliadau diwylliannol presennol a'u casgliadau, ac na fyddem yn gallu buddsoddi mewn Amgueddfa newydd ar gyfer Gogledd Cymru. Parhawyd i fuddsoddi i ailddatblygu'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn Llanberis, sy'n creu cyfleoedd ar gyfer gwell mynediad i'r casgliad cenedlaethol yn y Gogledd. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| **Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt** | | |
| 95 | Adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon-isel newydd i'w rhentu. | Mae hon yn un o'n blaenoriaethau allweddol ni fel llywodraeth. Yn ystod tair blynedd gyntaf tymor y Senedd hon fe wnaethom ddarparu bron i 9,000 yn rhagor o gartrefi i'w rhentu yn y sector cymdeithasol – dyma rai o'r lefelau darpariaeth uchaf ers 2008, pan ddechreuwyd cadw cofnodion cymaradwy. Mae rhagamcanion y sector hefyd yn dangos bod llif cryf o gynlluniau i ddarparu miloedd yn rhagor o gartrefi yn ystod y tymor y Senedd hon ac i mewn i'r nesaf. Ar ben hynny, helpodd £10m ychwanegol – ar ben y cyllidebau gwreiddiol yn 24/25 – i roi hwb i'r gwaith o ddatblygu 16 o gynlluniau tai fforddiadwy pellach, gan arwain at 238 o gartrefi ychwanegol sydd i fod i gael eu darparu cyn diwedd tymor y Senedd hon.<br><br>Hefyd yn 24/25, drwy ein Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol, daeth dros 1,000 o gartrefi ychwanegol ar gael, a oedd yn cynnwys 370 o eiddo gwag a ddaeth yn ôl i ddefnydd preswyl. Fe wnaethom hefyd sicrhau datblygiad arfaethedig 628 o unedau tai newydd, ar draws 12 ardal awdurdod lleol yng Nghymru, gyda benthyciadau gwerth bron i £24m o dan y cynllun Tir ar gyfer Tai (24/25). Darparwyd £90m mewn benthyciadau llog isel i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn 24/25, a fydd yn galluogi creu neu wella cannoedd o gartrefi ar gyfer rhent cymdeithasol. Er mwyn hyrwyddo cyflawni ymhellach, sefydlwyd Tasglu Cartrefi Fforddiadwy ym mis Tachwedd 2024 dan gadeiryddiaeth gan Lee Waters AS. Cyhoeddodd y Tasglu adroddiad ym mis Mai 2025, ac rydym wedi sefydlu grŵp gweithredu i fwrw ymlaen â'i argymhellion. Rydym eisoes wedi buddsoddi'r lefelau uchaf erioed mewn tai cymdeithasol yn ystod tymor y Senedd hon, gyda dros £1.4bn eisoes wedi'i fuddsoddi a disgwylir i'r buddsoddiad arfaethedig fynd ag ef i bron £2bn ar gyfer tymor y Senedd hon. |
| 96 | Sefydlu Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol, i gefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy. | Mewn cydweithrediad â 25 o landlordiaid cymdeithasol Cymru (Tai ar y Cyd), cynhyrchwyd llyfr patrymau arloesol a fydd yn helpu i wneud adeiladu cartrefi yng Nghymru yn fwy cynaliadwy, yn effeithlon o ran ynni ac yn gost-effeithiol, gan gryfhau cadwyni cyflenwi byr. Yn ogystal, rydym wedi cynhyrchu Canllaw Gweithredu Tai Gwledig – adnodd i randdeiliaid ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau penodol o ddarparu tai fforddiadwy yng nghefn gwlad Cymru. Mae arfarniadau opsiynau hefyd wedi'u cwblhau ar raglen hyfforddi i arfogi dysgwyr â'r wybodaeth angenrheidiol i ymgymryd â rôl swyddog datblygu tai cymdeithasol – ac ar ddulliau newydd o ymdrin ag arferion caffael gyda'r bwriad o greu cadwyni cyflenwi cadarn a gwydn. |
| 97 | Diwygio cyfraith tai a gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym. | Ar ôl cyhoeddi ymatebion i'n *Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru* ym mis Ebrill 2024, i lywio polisi ac adeiladu tystiolaeth, fe wnaethom barhau i weithio gyda rhanddeiliaid a phobl sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd. Cyflwynwyd ein Bil Dyrannu Digartrefedd a Thai Cymdeithasol (Cymru), sy'n canolbwyntio ar atal, gan ddarparu mwy o offer i gefnogi pobl i symud i gartrefi tymor hwy ac ymateb amlasiantaeth, ym mis Mai 2025. Fel rhan o'r gwaith ehangach o drawsnewid gwasanaethau digartrefedd, rydym yn parhau i fabwysiadu dull 'gadael neb ar ôl' wrth ymdrin â digartrefedd. Yn y 12 mis hyd at Ebrill 2025, cafwyd 16,026 o leoliadau mewn llety dros dro a darparwyd bron i £220m ar gyfer atal digartrefedd a chymorth tai. Yn ogystal, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol i gefnogi symud ymlaen o lety dros dro i sicrhau llety tymor hwy o ansawdd da i'r rhai sy'n byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 98 | **Cyhoeddi Papur Gwyn i gyflwyno cynigion ar gyfer yr hawl i gartrefi digonol, gan gynnwys rhenti teg a ffyrdd newydd o sicrhau bod cartrefi'n rhai y gall pobl ar incwm lleol eu fforddio.** | Cyhoeddwyd y *Papur Gwyn ar sicrhau llwybr tuag at dai digonol, gan gynnwys rhenti teg a fforddiadwyedd* ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Hydref 2024. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ionawr 2025, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Rydym wedi asesu'r ymatebion, a bydd adroddiad cryno yn cael ei gyhoeddi yn yr haf. |
| 99 | **Bwrw ymlaen â chamau i osod terfyn ar nifer yr ail gartrefi, dod â rhagor o gartrefi o dan berchnogaeth gyffredin a thrwyddedu llety gwyliau.** | Gweithredwyd cyfarwyddyd Erthygl 4 cyntaf Cymru ym mis Medi 2024 gan Gyngor Gwynedd, gyda chymorth ariannol a ddarparwyd gennym ni. Erbyn mis Ebrill 2025, bydd pob un ond un o'r awdurdodau lleol yn codi premiwm y dreth gyngor ar naill ai ail gartrefi neu eiddo gwag hirdymor neu'r ddau. O dan gynllun peilot Dwyfor, mae'r nifer uchaf erioed o bobl leol wedi elwa ar y cynllun Cymorth Prynu sydd wedi'i deilwra fel rhan o'r cynllun peilot. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar Gam 1 y cynllun peilot ym mis Chwefror 2025. Mae gwaith datblygu polisi yn parhau ar drwyddedu llety gwyliau gyda'r nod o gyflwyno Bil yn ystod hydref 2025. |
| 100 | **Cefnogi tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol.** | Parhawyd i gefnogi Cwmpas gyda £180k bob blwyddyn (rhwng 2022-2025) tuag at ei raglen Cymunedau'n Creu Cartrefi. Mae hyn yn darparu cymorth hanfodol i grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid eraill i ddarparu tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol. Mae Cwmpas yn blaenoriaethu gwaith gyda 48 o grwpiau gyda'r potensial i ddarparu 315 o gartrefi newydd. Cytunwyd ar gyllid o £200k i barhau i gefnogi Tai a Arweinir gan y Gymuned yn 25/26 gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. |
| 101 | **Creu strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren a all ddatblygu a chynnal cynhyrchu a phrosesu gwerth uchel i bren Cymru.** | Mae datblygu'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren wedi mynd rhagddo'n dda gydag ymgynghoriad ar agor rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2025. Yn ystod y cyfnod hwn, cafwyd cyflwyniadau a gweminarau i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ac i hybu ymgysylltiad eang â'r ymgynghoriad. Cyhoeddwyd adolygiad hefyd o strategaethau ac ymyriadau i gefnogi'r diwydiant pren ym mis Ionawr 2025, gan ddarparu cymhariaeth o ddulliau rhyngwladol. Ar yr un pryd, rydym wedi hwyluso cyfnewid gwybodaeth drwy ddau weithdy i arddangos yr ymchwil ddiweddaraf ac i hybu ymgysylltu â rhanddeiliaid. Ym mis Hydref lansiwyd ein Rhaglen Sgiliau Hyblyg ar gyfer Coedwigaeth a Chyflenwi Pren, sy'n cynnig cymorth i fusnesau ar gyfer hyfforddiant staff a datblygu sgiliau. Byddwn yn cyhoeddi'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren yn nes ymlaen ym mis Gorffennaf 2025. |
| 102 | **Datgarboneiddio rhagor o gartrefi drwy ôl-osod, gan ddarparu swyddi o safon, hyfforddiant ac arloesedd a defnyddio cadwyni cyflenwi lleol.** | Yn 24/25 buddsoddwyd y swm uchaf erioed o gyfalaf, sef £229m, ar wella ansawdd cartrefi cymdeithasol, gan gynnwys eu heffeithlonrwydd ynni, drwy gymysgedd o grantiau a benthyciadau llog isel. Lansiwyd cynllun peilot Cartrefi Gwyrdd Cymru, a weinyddir gan Fanc Datblygu Cymru, sy'n cynnig cymorth technegol ochr yn ochr â benthyciadau di-log i aelwydydd sy'n dymuno buddsoddi mewn mesurau effeithlonrwydd ynni. Mae'r diddordeb wedi bod yn uchel iawn, ac rydym wedi ehangu'r cynllun peilot gyda buddsoddiad pellach yn 25/26. Lansiwyd y cynllun Cartrefi Clyd Nyth ar ei newydd wedd eleni, gan fynd i'r afael â heriau deublyg tlodi tanwydd a newid hinsawdd. Rydym hefyd wedi dechrau gweithio ar lwybrau posibl i leihau allyriadau'r sector dros y cyfnod 2026-2030, yng nghyd-destun ein trydydd cynllun lleihau allyriadau. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 103 | Ystyried ble y gellir dod â gwasanaethau a chontractau yn ôl yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy i mewn i sector cyhoeddus cryfach. | Cyhoeddwyd y pecyn cymorth ar gyfer mewnoli yng Nghymru ac adroddiad terfynol ym mis Rhagfyr 2022, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. O dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi cod ymarfer (y 'cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu') am gyflogaeth a phensiynau sy'n gysylltiedig â chontractau allanoli gwasanaethau. Mae'r cod hwn a'r canllawiau cysylltiedig, y bwriedir ymgynghori arnynt yn nes ymlaen yr haf hwn, yn cyfeirio at y pecyn cymorth mewnoli ac yn cysylltu ag ef. Dylid ystyried y rhain pan fydd yn bryd aildendro ar gyfer gwasanaeth wedi'i allanoli, gan godi amlygrwydd y pecyn cymorth gyda rhanddeiliaid. |
| 104 | Sicrhau bod gan bob rhanbarth yng Nghymru ddull effeithiol ac atebol yn ddemocrataidd o ddatblygu economïau'r dyfodol. | Mae'r pedwar cyd-bwyllgor corfforedig rhanbarthol wedi'u sefydlu'n llawn. Maent wedi paratoi cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol drafft ac yn datblygu cynlluniau defnydd tir strategol. Mae gan bob cyd-bwyllgor y pŵer i hyrwyddo llesiant economaidd i helpu'r i ddatblygu'r cynlluniau hyn a'u rhoi ar waith. Bwriedir datblygu prosbectws drafft ar gyfer cyd-bwyllgorau, ar y cyd â llywodraeth leol, i nodi ein huchelgeisiau cyffredin ar gyfer gweithio rhanbarthol. |
| 105 | Parhau i adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol gyda phartneriaid lleol. | Cyhoeddwyd yr adolygiad o drefniadau partneriaeth ym mis Ionawr 2024, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. |
| 106 | Gwneud 20mya yn derfyn cyflymder diofyn mewn ardaloedd preswyl. | Cyflawnwyd yr ymrwymiad hwn pan newidiodd y terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru o 30mya i 20mya ym mis Medi 2023. Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar osod terfynau cyflymder 30mya ar ffyrdd cyfyngedig. Ers mis Medi 2024, mae awdurdodau priffyrdd wedi bod yn adolygu ffyrdd 20mya i nodi lleoliadau lle y byddai dychwelyd i 30mya yn ddiogel ac yn briodol. Lle bo modd ei gyfiawnhau, mae'r awdurdodau wedi dechrau mynd ati i wneud Gorchmynion Rheoleiddio Traffig, a disgwylir i'r gwaith hwn barhau drwy gydol 2025. Yn ôl data monitro Trafnidiaeth Cymru, (sy'n cwmpasu hyd at fis Ionawr 2025), cofnodwyd bod 54% o gerbydau wedi teithio ar 24mya neu'n is ar ffyrdd lle'r oedd y terfyn diofyn wedi newid o 30mya i 20mya (ym mis Medi 2023). Mae hyn yn welliant sylweddol o'r 20.8% a gofnodwyd cyn i'r terfyn cyflymder is gael ei roi ar waith. Mae data dros dro am wrthdrawiadau a gofnodwyd gan yr heddlu ar gyfer 2024 yn dangos bod 1,441 o wrthdrawiadau ffyrdd ar ffyrdd â therfynau cyflymder o 20mya a 30mya gyda'i gilydd. Dyma'r ffigur blynyddol isaf ers i gofnodion ddechrau. |
| 107 | Gwahardd parcio ar y palmant, ble bynnag y bo modd. | Rydym yn mynd ar drywydd dull gweithredu ar gyfer yr ymrwymiad hwn gyda Llywodraeth y DU, sydd hefyd yn ystyried sut i fynd i'r afael â'r mater hwn, o bosibl gyda deddfwriaeth a allai gwmpasu Cymru a Lloegr. |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| **Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang** | | |
| 108 | Sefydlu comisiwn sefydlog annibynnol i ystyried dyfodol cyfansoddiadol Cymru. | Sefydlwyd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ('y Comisiwn') gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2021, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2024, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i gefnogi'r gwaith o gyflawni argymhellion y Comisiwn. Argymhellodd y Comisiwn gyfres o ddiwygiadau i gryfhau democratiaeth yng Nghymru, gan gynnwys sefydlu panel arbenigol i helpu i feithrin gallu o ran arloesi democrataidd ac ymgysylltu'n gynhwysol â'r gymuned. I fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, mae Dr Anwen Elias wedi'i phenodi'n gadeirydd y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth ac fe gyhoeddwyd aelodaeth y grŵp cynghori ym mis Ebrill. Mae trafodaethau ar lefel gweinidogion a swyddogion wedi bod yn digwydd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn nifer o feysydd eraill sy'n ymwneud ag argymhellion y Comisiwn, gan adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes yn digwydd a chan ddarparu llwyfan hefyd ar gyfer cynnydd pellach. |
| 109 | Cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd, yn seiliedig ar 80 i 100 o Aelodau; system bleidleisio sydd yr un mor gyfrannol – neu'n fwy cyfrannol – â'r un bresennol a chyflwyno cwotâu rhywedd wedi'u pennu mewn cyfraith. | Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gwblhau, ac rydym yn cydweithio'n agos â phartneriaid cyflawni er mwyn i'r diwygiadau hyn gael eu rhoi ar waith mewn pryd ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026. Pasiwyd Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), a fydd yn cyflawni'r mwyafrif o'r newidiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, gan uwchfwyafrif o'r Aelodau, ac fe gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 24 Mehefin 2024. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys cynyddu maint y Senedd i 96 o Aelodau a newid y system etholiadol i un sydd wedi'i seilio'n llawn ar yr egwyddor o gynrychiolaeth gyfrannol. Cyflwynwyd Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), a oedd yn darparu ar gyfer cwotâu rhywedd statudol, ar 11 Mawrth 2024. Tynnwyd y Bil yn ôl ar 24 Medi 2024 i gyflymu'r gwaith ar ganllawiau amrywiaeth a chynhwysiant newydd ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig. Penderfynwyd mai dyma oedd y ffordd orau o gyflawni newid ymarferol ar gyfer etholiad y Senedd 2026. Cyhoeddwyd y canllawiau ym mis Mawrth 2025 (o dan adran 30 o'r Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig) ac mae'n cynnwys adran ar gynrychiolaeth menywod. |
| 110 | Hyrwyddo a chefnogi gwaith y Comisiwn Cyfansoddiadol ar gyfer y DU gyfan sy'n cael ei sefydlu gan Blaid Lafur y DU[1]. | Croesawodd y Gweinidogion adroddiad y Comisiwn, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022, a'i argymhellion ar gyfer diwygio strwythurau cyfansoddiadol y DU, gan gynnwys datganoli pwerau newydd i Gymru. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gwblhau bellach. |

1 Mae'r ymrwymiad i *"Hyrwyddo a chefnogi gwaith Comisiwn Cyfansoddiadol y DU gyfan sy'n cael ei sefydlu gan Blaid Lafur y DU"* yn cael ei ddatblygu gan Lafur Cymru ac nid yw'n cael ei fonitro gan wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru.

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 111 | Sefydlu Academi Heddwch yng Nghymru. | Sefydlwyd Academi Heddwch yn 2022, gan gwblhau'r ymrwymiad hwn. Ers hynny, rydym wedi parhau i gefnogi gwaith yr Academi i hyrwyddo heddwch drwy ddigwyddiadau yn ogystal â thrwy Rwydwaith Ymchwil Heddwch Cymru, sy'n agored i sefydliadau heddwch rhyngwladol neu unrhyw un yng Nghymru sydd â diddordeb mewn ymchwil heddwch. Yn 24/25 ymgymerodd â dau ddarn allweddol o ymchwil a wnaeth ei alluogi i hyrwyddo heddwch a chryfhau cydweithrediad â phartneriaid rhyngwladol. Cymerodd yr Academi ran hefyd yn y Gwobrau Heddwch i Ysgolion ac fe draddododd y Ddarlith Heddwch Flynyddol yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Ym mis Medi 2024, cynhaliodd y gynhadledd 'Y Prosiect Hawlio Heddwch – Canrif o Ddeiseb Menywod Hynod Cymru', a fynychwyd gan y Prif Weinidog. Cynhaliwyd ei Chynhadledd Heddwch flynyddol ym mis Tachwedd, lle y cyflwynwyd yr adroddiad 'Cymru fel Cenedl Heddwch'. Ym mis Chwefror 2025, mewn partneriaeth â Sefydliad Heddwch Fflandrys ac fel rhan o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cymru gyda Fflandrys, cynhaliodd yr Academi Heddwch ddigwyddiad ym Mrwsel o'r enw 'Gwladwriaethau Bach yn Gwneud Effaith Fawr'. Yn olaf, ym mis Mawrth, cynhaliodd yr Academi Heddwch ddigwyddiad a ymchwiliodd i ymatebion di-drais byd-eang i wrthdaro. |
| 112 | Ceisio diwygio'r dreth gyngor i sicrhau system decach a mwy graddoledig. | Cymeradwyodd y Senedd Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 ym mis Gorffennaf 2024, gan nodi cyflawni'r Ddeddf cyllid llywodraeth leol gyntaf ers datganoli. Mae'r garreg filltir bwysig hon yn hwyluso diwygiadau i'r dreth gyngor ym mis Ebrill 2028, gan gyflawni ein hymrwymiad i system decach sy'n lleihau anghydraddoldebau cyfoeth. Fe wnaethom nodi ein hegwyddorion yn 2022 a cheisio barn ar newidiadau posibl yn 2023. Gan weithio'n agos â llywodraeth leol, y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol, Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru, rydym yn parhau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys dylunio bandiau cyfoes ar gyfer y dreth gyngor yn dilyn ymarfer ailbrisio eiddo gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio a sefydlu diweddariadau rheolaidd bob pum mlynedd i olrhain amodau economaidd. Bydd rhoi'r Ddeddf ar waith yn dilyn cyfres o is-ddeddfwriaeth yn nhymor nesaf y Senedd. Wrth inni baratoi ar gyfer hyn, rydym yn cyflawni gwelliannau eraill i'r dreth gyngor, gan gynnwys disgowntiau a gostyngiadau, arferion casglu ac apeliadau. |
| 113 | Diwygio etholiadau llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd. | Mae Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 9 Medi 2024, yn cynnwys diwygiadau arloesol i hyrwyddo ymgysylltu democrataidd a moderneiddio gweinyddu etholiadol. Ym mis Ionawr 2025, cytunodd y Senedd ar reoliadau i dreialu ychwanegu pleidleiswyr at y gofrestr llywodraeth leol heb gais yng Ngwynedd, Casnewydd a Phowys. Bydd y cynlluniau peilot hyn yn dod i ben ym mis Medi 2025, a bydd Sir Gaerfyrddin hefyd yn gwerthuso ansawdd data lleol heb ddiwygio'r gofrestr. Rydym wedi cydgynhyrchu'r cynlluniau peilot hyn gyda'r awdurdodau lleol, gydag ymgysylltiad gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a'r Comisiwn Etholiadol, a fydd yn gwerthuso'r cynlluniau peilot. Sefydlwyd y Bwrdd Rheoli Etholiadol statudol newydd ym mis Ionawr 2025, gan gryfhau gweinyddu etholiadau. Ym mis Mawrth 2025, cytunodd y Senedd ar reoliadau i sefydlu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau, a fydd yn ffynhonnell annibynnol ac awdurdodol sengl i bleidleiswyr ddeall democratiaeth Cymru a gwrthsefyll twyllwybodaeth. Ym mis Mawrth 2025 cyhoeddwyd, yn dilyn llwyddiant y Grant Ymgysylltu â Democratiaeth (2022-2025) yn cefnogi 22 o sefydliadau i gyflawni 27 o brosiectau amrywiol mewn cymunedau ledled Cymru, y byddai'n agor eto am dair blynedd bellach (2025-28). |

| | Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu | Cynnydd hyd at 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| 114 | Rhoi rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol gwerth £65 miliwn ar waith. | Mae Taith, y rhaglen gyfnewid ryngwladol ar gyfer dysgu yn parhau i gyflawni effeithiau cadarnhaol ar ein cymunedau a'n henw da byd-eang. Mae ein buddsoddiad hyd yn hyn, (ers 2022) wedi darparu cyllid hanfodol i gefnogi 220 o brosiectau Taith, gan arwain at dros 15,000 o deithiau a ragwelwyd. Bydd 308 o sefydliadau ledled Cymru yn elwa a rhagwelir y bydd prosiectau cydweithredol yn cynnwys bron 100 o wledydd a thiriogaethau. Rhwng 2022 a diwedd mis Mawrth 2025, mae dros £24.4m o gyllid Taith wedi'i ddyfarnu i brosiectau ledled Cymru. Gan adlewyrchu gwerthoedd craidd Taith, sef hygyrchedd a chynhwysiant, mae Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru wedi'i phenodi i gynnig cymorth ychwanegol i ymgeiswyr tro cyntaf o'r sectorau ysgolion, ieuenctid ac addysg oedolion. Arloesiad pellach sy'n anelu at ehangu cyfranogiad yw cyflwyno cynllun grantiau bach (hyd at £60,000), gyda phroses ymgeisio gyfrannol gyda'r nod o gynyddu nifer y prosiectau llwyddiannus oddi wrth sefydliadau llai (sy'n tueddu i weithio gyda chyfranogwyr o grwpiau sydd heb gael eu cynrychioli'n ddigonol). Mae cronfa bartneriaeth Cymru Fyd-eang, a ariennir gan Taith, wedi cefnogi 22 o brosiectau tymor byr, sy'n cael eu sbarduno gan ganlyniadau mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru i ddatblygu perthnasoedd cynaliadwy, hirdymor â phartneriaid rhyngwladol. Bydd prosiectau, o hyd at £5,000, yn mynd i'r afael â themâu o ddiddordeb byd-eang gan gynnwys digidol, sero net; tech-amaeth, diwydiannau creadigol, iechyd a gweithgynhyrchu. |
| 115 | Ailfywiogi ein perthynas efeillio ledled yr UE drwy Gronfa Gefeillio Pobl Ifanc. | Er mwyn cael mwy o eglurder ar drefniadau gefeillio presennol, arolygwyd yr awdurdodau lleol a chynghorau tref a chymuned yn 2023. Er bod gweithgareddau gefeillio ad hoc yn digwydd, o ddadansoddi'r canlyniadau, dangoswyd nad oes modd bwrw ymlaen â gwaith pellach yn y maes hwn. Am y rheswm hwn a chan fod Taith yn darparu cyfleoedd rhyngwladol i bobl ifanc, mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gwblhau. |